Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Taro'r Tant
# Ymchwiliad i ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati

Mehefin 2018




www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**
Twitter: **@ SeneddDGCh**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Taro'r Tant
## Ymchwiliad i ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati

Mehefin 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Mae ei gylch gwaith ar gael yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Bethan Sayed AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Hannah Blythyn AC**
Llafur Cymru
Delyn



**Dawn Bowden AC**
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Jeremy Miles AC**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **8**

**1. Y cefndir** ........ **11**

**2. Cyflwyniad** ........ **13**

**3. Model cenedlaethol** ........ **15**

Ein barn ni ........ 17

**4. Y sefyllfa bresennol o ran gwasanaethau cerddoriaeth** ........ **20**

Amrywioldeb a’r angen am strategaeth ........ 20

Ein barn ni ........ 22

Gweithlu ........ 23

Ein barn ni ........ 25

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth ........ 26

Ein barn ni ........ 26

Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol ........ 27

Ein barn ni ........ 28

Gweithio gydag eraill ........ 29

Ein barn ni ........ 29

**5. Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen** ........ **31**

Ein barn ni ........ 33

**6. Ariannu a blaenoriaethu** ........ **35**

Cyllid wedi’i glustnodi ........ 35

Ein barn ni ........ 36

Darparu offerynnau cerdd ........ 37

Ein barn ni ........ 42

Arolygu gwasanaethau ........ 43

Ein barn ni ........ 43

Cynhwysiant a’r Grant Datblygu Disgyblion ........ 44

Ein barn ni ........ 46

Statws o fewn y cwricwlwm ........ 47

Ein barn ni ........ 48

Cerddoriaeth boblogaidd ........ 49

Ein barn ni ........ 50

**7. Ensembles ........ 51**

Mynediad at yr Ensembles Cenedlaethol ........ 51

Ariannu'r ensembles ........ 52

Ein barn ni ........ 55

**AtodiadA – Tystion a Thystiolaeth Ysgrifenedig ........ 57**

**Atodiad B – Tystiolaeth ysgrifenedig ........ 59**

# Rhagair y Cadeirydd

O'r emyn-dôn "Aberystwyth" gan Joseph Parry i ganeuon protest y 60au a'r 70au, mae cerddoriaeth Cymru wedi bod â rôl flaenllaw ers tro byd - nid yn unig wrth hybu diwylliant ac etifeddiaeth Cymru y tu hwnt i'n ffiniau, ond hefyd wrth roi bywyd a pharhad i gynnwys y gerddoriaeth honno, gan gynnwys yr iaith Gymraeg ei hun. Drwy gyfrwng cerddoriaeth, mae Cymru wedi brwydro yn erbyn gormes a dirywiad yn ei diwylliant ac, yn hytrach, mae wedi dod i gael ei hadnabod fel "gwlad y gân".

Mae pwysigrwydd cerddoriaeth i Gymru hefyd i'w weld yn y rhan y mae'n ei chwarae yn sector y diwydiannau creadigol - sector sy'n cynhyrchu bron i £1 biliwn y flwyddyn, ffigur sydd wedi cynyddu bron 20 y cant yn y pum mlynedd diwethaf.

Gan hynny, syfrdanol oedd clywed gan Owain Arwel Hughes, sef sylfaenydd Proms Cymru, fod toriadau i wasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion yn achosi argyfwng mewn addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Ategwyd y pryder hwn yng nghanlyniad arolwg barn y Pwyllgor ynghylch pa faes polisi y dylai ganolbwyntio arno nesaf. O'r 11 ymchwiliad posibl, "ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati" a ddaeth i'r brig gydag 20 y cant o'r bleidlais.

Drwy gydol y dystiolaeth, y ddwy brif thema a ddaeth i'r amlwg oedd cydraddoldeb darpariaeth a chydraddoldeb mynediad. Clywodd y Pwyllgor droeon sut yr oedd gwahanol ardaloedd yng Nghymru â sefyllfa wahanol iawn i'w gilydd mewn perthynas â gwasanaethau cerddoriaeth.

Thema arall a ddaeth i'r amlwg drwy gydol y dystiolaeth oedd yr effaith gadarnhaol y mae addysg cerddoriaeth yn ei chael ar ddatblygiad plentyn. Yn gyson, fe glywsom gan y tystion, o gael addysg cerddoriaeth yn eu blynyddoedd ffurfiannol, sut y gwnaethant ddysgu gwerth ymroddiad a phwysigrwydd bod yn amyneddgar a gweithio'n galed.

A minnau'n gerddor fy hun, sydd wedi bod drwy system y gwasanaethau cerddoriaeth, rydw i wedi cael cyfleoedd arbennig - boed hynny wrth chwarae rhai o ddarnau cerddoriaeth mwyaf adnabyddus y byd cerddorfaol, gweithio mewn tîm, neu deithio i wahanol wledydd â Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru i arddangos y dalent yng Nghymru. Gan hynny, rwy'n angerddol ynghylch mynd i'r afael â'r angen brys i gynnal a datblygu cerddoriaeth yng Nghymru, ac rwy'n credu bod yn rhaid inni nawr ganfod atebion radical yn sgil y toriadau parhaus y mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hwynebu.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â'r diffygion a sicrhau bod cysondeb ledled Cymru, er mwyn gwneud yn siŵr bod pob plentyn, ni waeth lle maent yn byw na beth yw eu cefndir ariannol, yn elwa ar gyfle cyfartal i ddatblygu i safon ragorol. Mae bellach yn amser i beidio â chuddio'r craciau yn unig, ond yn hytrach i roi adnoddau digonol a chyfeiriad clir i'r sector.

Oherwydd hynny, rydym yn galw i'r cyfrifoldeb dros wasanaethau cerddoriaeth gael eu trosglwyddo i gorff cenedlaethol. Rydym yn credu mai corff cenedlaethol, yn gweithredu drwy fodel rhanbarthol, sydd fwyaf addas i fynd i'r afael â rhwystrau i gydweithredu ac i sicrhau darpariaeth gyson a theg ledled Cymru.

Rydym yn deall y bydd angen amser efallai i weithredu'r fath newid sylweddol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen mynd i'r afael â materion megis y prinder dirfawr o offerynnau cerdd, a hynny ar frys. Felly, rydym wedi nodi pa argymhellion y byddem yn disgwyl iddynt gael eu gweithredu cyn i'r corff cenedlaethol ddod yn weithredol.

Mae'r sector hefyd wedi dioddef yn sgil diffyg strategaeth a gweledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth - un sy'n integreiddio darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth â llwybrau cynnydd disgyblion gan sicrhau bod yr addysg yn canolbwyntio ar botensial yn hytrach na thâl. Rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfeiriad strategol drwy weithredu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth.

Er ein bod yn galw am newidiadau sylfaenol i ddull Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg cerddoriaeth, rydym hefyd yn cydnabod ac yn croesawu'r camau y mae wedi'u cymryd yn ddiweddar. Mae'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth a'r Amnest Offerynnau Cerdd a sefydlodd Ysgrifennydd y Cabinet, ynghyd â'r £10,000 sy'n cael ei ddyfarnu i bob awdurdod lleol ar gyfer prynu offerynnau cerdd, oll yn gamau i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, er nad oes amheuaeth bod y camau hyn yn rhai cadarnhaol, maent yn bell o fod yn ddigonol. Fel y dywedodd un o'r tystion wrth drafod y cyhoeddiad am y trefniadau ariannu, "cystal ag ydyw, nid yw'n agos at yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd".

Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n gyflym i ystyried ffyrdd o integreiddio a hybu dysgu ffurfiau o gerddoriaeth sy'n llai traddodiadol, megis roc a phop, ac ystyried beth fyddai'r dull gorau i gefnogi'r rheini sydd am sefydlu a chynnal modelau amgen, dichonadwy o ddarpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth. Clywsom enghreifftiau cadarnhaol iawn o wahanol ddulliau a strwythurau addysgu y dylid eu cydnabod o ganlyniad i ddull newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

Rhaid diogelu a meithrin gwasanaethau cerddoriaeth, a sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.



Bethan Sayed AC
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol hyd braich sydd â model a phatrwm penodol ar gyfer darpariaeth pob rhanbarth. Dylai'r corff cenedlaethol gael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru a dylid ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion a staff sy'n gweithio yn y sector addysg cerddoriaeth, ni waeth lle y maent na beth yw eu cefndir cymdeithasol, yn elwa ar gyfleoedd cyfartal. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y corff cyfrifol unrhyw arian ychwanegol sydd ei angen er mwyn cynnal cydraddoldeb mynediad ar lefel Cymru gyfan. .......... Tudalan 19

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gymryd perchnogaeth strategol o wasanaethau cerddoriaeth drwy ymgynghori â rhanddeiliaid (ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith) er mwyn paratoi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cerddoriaeth. Er mwyn parhau i fod yn addas i'r diben, dylai'r Cynllun Gweithredu gael ei adolygu'n rheolaidd a chyhoeddi adroddiad yn flynyddol. .......... Tudalan 23

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i adolygu telerau ac amodau staff y gwasanaeth cerddoriaeth i sicrhau eu bod mor gyson â phosibl fel mater o frys. .......... Tudalan 25

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, yn amodol ar y pwyntiau uchod ynghylch datblygiad ar byramid addysg cerddoriaeth Llywodraeth Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod arian, cefnogaeth a chyngor digonol ar gyfer y rheini sydd am sefydlu modelau amgen, dichonadwy o ddarpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth, ar yr amod bod unrhyw fodel cefnogaeth yn cydymffurfio â safbwynt moesegol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thelerau ac amodau staff. .......... Tudalan 27

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol er mwyn annog ysgolion i ddefnyddio arbenigedd gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru. .......... Tudalan 28

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yn:

- Ceisio nodi a defnyddio pawb o fewn y byd cerddoriaeth sy'n gallu ac yn barod i gefnogi dysgu cerddoriaeth i bobl ifanc; a
- Sefydlu a gweithredu cyfres o ddosbarthiadau meistr er mwyn tynnu ar brofiad ac ewyllys da arbenigwyr yn y sector cerddoriaeth. ............Tudalan 30

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried ar y cyd fel mater o frys sut y gall gwaith awdurdodau lleol yng Nghymru o weithredu argymhellion adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen gael ei gyflymu, gyda'r bwriad o adrodd i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. ................ Tudalan 34

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu ar gyfer Cerddoriaeth, yn sefydlu grŵp cynghori parhaol i gynghori a rhoi gwybodaeth iddi am faterion sy'n ymwneud ag addysg cerddoriaeth. ........................................................................................................................................Tudalan 34

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'n sylweddol y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer prynu offerynnau cerdd ac yn eu dosbarthu ar sail angen. Dylid gwneud hyn fel mater o frys a dylid ei anelu at wella'r sefyllfa yn y byrdymor, i gwmpasu'r cyfnod cyn bod corff cenedlaethol yn gallu cymryd cyfrifoldeb llawn dros wasanaethau cerddoriaeth. ........................................................................................................................................Tudalan 42

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol gan ganolbwyntio ar gamau ymarferol i sicrhau cysondeb o ran cyfle ledled Cymru. ........................................................................................................................................Tudalan 44

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o gyllid Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer addysg cerddoriaeth. ........................................................................................................................................Tudalan 47

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yn:

- darparu cyfeiriad strategol i awdurdodau lleol ac ysgolion ar ffyrdd o integreiddio a hybu'r gwaith o addysgu ffurfiau llai traddodiadol o gerddoriaeth; ac

- annog sefydlu ensembles roc a phop, a chystadlaethau cenedlaethol sy'n seiliedig ar roc a phop. ........ Tudalan 50

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn rhoi mecanweithiau a chyllid digonol ar waith er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl, sy'n dymuno symud ymlaen at ragoriaeth, yr adnoddau i wneud hynny. ........ Tudalan 56

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ffyrdd o fonitro cyfansoddiad yr ensembles cenedlaethol i sicrhau eu bod mor gynhwysol o'r holl grwpiau cymdeithasol â phosibl. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd yn eu cyfansoddiad fel mater o frys. Dylid adolygu'r data yn rheolaidd a chymryd y camau priodol. ........ Tudalan 56

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cymryd camau i sicrhau bod mwy o eglurder o ddiben rhwng y Gronfa Waddol a Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn y cyllid elusennol y maent yn ei geisio er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ac i annog cydweithio rhyngddynt. ........ Tudalan 56

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r cyllid sydd ar gael i'r Gwaddol Cenedlaethol ac yn ystyried cyfraniadau cyfalaf ychwanegol os bydd angen. ........ Tudalan 56

# 1. Y cefndir

**1.** Yn ystod haf 2016, gofynnodd y Pwyllgor i'r cyhoedd yng Nghymru gyflwyno eu syniadau ynghylch yr hyn y maent yn teimlo y dylai blaenoriaethau'r Pwyllgor fod, o ystyried ei gylch gwaith. Yn seiliedig ar yr ymarfer hwn, lansiodd y Pwyllgor arolwg barn cyhoeddus a gofyn i'r cyhoedd yng Nghymru fynd gam ymhellach a phenderfynu'n uniongyrchol pa ymchwiliad y dylem edrych arno gyntaf. Allan o gyfres o awgrymiadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad dros yr haf, y dewis mwyaf poblogaidd oedd "Ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati".

**2.** Felly, mae'r ymchwiliad hwn yn cynrychioli'r tro cyntaf i un o Bwyllgorau'r Cynulliad roi penderfyniad yn uniongyrchol i bobl Cymru, gan ofyn iddynt benderfynu beth y byddai'r Pwyllgor yn edrych arno.

**3.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid drwy dystiolaeth ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth lafar. Roedd y sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf gydag Owain Arwel Hughes, sylfaenydd Proms Cymru a chyn-arweinydd gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Roedd Mr Hughes wedi disgrifio'n ddiweddar bod y lefel isaf erioed o geisiadau ar gyfer Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn arwydd o argyfwng ehangach mewn cerddoriaeth Gymreig a'i fod yn gysylltiedig â thoriadau i wasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion.[1]

**4.** Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu a chyllido gwasanaethau cerddoriaeth anstatudol. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ac mae awdurdodau'n gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar eu blaenoriaethau lleol. Dyma brif weithgareddau gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru:

- Hyfforddiant offerynnol a lleisiol ar gyfer unigolion neu grwpiau;
- Darparu offerynnau i'w defnyddio naill ai yn yr ysgol neu y tu allan;
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau perfformio drwy gymryd rhan mewn ensembles yn yr ysgol, yn lleol, yn sirol ac yn draws-sirol;
- Cefnogaeth ar gyfer addysgu cerddoriaeth yn y cwricwlwm. Gall ysgolion dalu am ddarpariaeth ychwanegol er mwyn ategu eu darpariaeth eu hunain.

[1] www.bbc.co.uk/news/uk-wales-38332882

**5.** Sefydlwyd Grŵp Cynghori ar-lein i'n cynorthwyo yn ein trafodaethau wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo. Roedd y Grŵp Cynghori yn cynnwys arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol yn y maes addysg cerddoriaeth o bob cwr o Gymru. Gofynnwyd cwestiynau uniongyrchol iddynt a rhoddwyd cyfle iddynt roi sylwadau ar y materion allweddol sy'n llywio cynnwys yr adroddiad hwn er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried y sylwadau. Roedd y Grŵp Cynghori yn arbennig o ddefnyddiol, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a fu'n rhan ohono.

**6.** Er inni orffen casglu tystiolaeth yn ffurfiol yng ngwanwyn 2017, gwnaethom benderfynu cynnal sawl ymarfer casglu gwybodaeth ychwanegol i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth fwy llawn o'r sector a'i sefyllfa bresennol. Roedd hyn yn cynnwys ysgrifennu at bob ysgol uwchradd i ofyn am wybodaeth am y cyfleoedd addysg cerddoriaeth a oedd ar gael i'w disgyblion. Er inni fod yn hwyrach na'r disgwyl yn cwblhau'r adroddiad hwn, rydym yn teimlo y bu angen yr amser ychwanegol i allu cyfrannu'n gadarnhaol ac yn ystyrlon i'r drafodaeth. Drwyddi draw, rydym wedi canolbwyntio ar ddarpariaeth deg ledled Cymru mewn perthynas ag addysg cerddoriaeth ragorol.

**7.** Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

- Mynediad at wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc;
- Y sefyllfa bresennol o ran yr ensembles cenedlaethol a rhanbarthol;
- Yr hyn a gyflawnwyd o ran gweithredu argymhellion adolygiadau Llywodraeth Cymru o wasanaethau cerddoriaeth ac ensembles y celfyddydau cenedlaethol;
- Effaith penderfyniadau cyllido ar ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol a materion sy'n ymwneud â'r gweithlu addysg cerddoriaeth; ac
- Archwilio darpariaeth ehangach gwasanaethau addysg cerddoriaeth drwy'r trydydd sector a'r sector masnachol.

# 2. Cyflwyniad

**8.** Roedd adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015, yn un o nifer o adroddiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag addysg cerddoriaeth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi clywed bod addysg cerddoriaeth yn parhau i fod yn destun pryder. Mae rhai tystion wedi disgrifio'r sefyllfa fel argyfwng. Mae eraill wedi awgrymu bod potensial i argyfwng ddatblygu. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi clywed bod sefyllfa gwasanaethau cerddoriaeth yn wan a bod y darlun y tu allan i'r ysgol yn fregus a thameidiog.

**9.** Dywedodd Emma Archer o Gymdeithas Addysg Cerdd Awdurdodau Cymru wrth y Pwyllgor:

> "I don't think that over the last 20 years there has been any strategy to arrive at the point that we are now at; so as a result of that, I think each local authority, or each music service, has responded individually in different ways to the challenges of funding cuts. I think, as a result of that, there are now huge differences in how fit for purpose people are to move forward."[2]

**10.** Cytunodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, fod hwn yn gyfnod heriol ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth, ond nid oedd yn credu y byddai'n gywir ei ddisgrifio fel argyfwng. Dywedodd:

> "What's important for me, as Cabinet Secretary for Education, is that schools are able to access services that can enhance the delivery of the curriculum, including music, and it's only right that schools are able to commission and buy in services that they believe are the right services for supporting their learners to grow academically, personally, and creatively. So, my passion is for services and arts organisations to work collaboratively, to co-operate effectively, with teachers and education professionals to tailor their services to best meet the needs of our children in Wales."

**11.** Aeth yn ei blaen i ddweud:

---

[2] **http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s59812/15%20February%202017.pdf**

> "...as for the individual structures, that really is a matter for the local authorities to decide how best they can deliver them."[3]

**12.** Fodd bynnag, hyd yn oed ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae awdurdodau lleol yn parhau i wneud dewisiadau anodd ynghylch eu cyllidebau, er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystyried tynnu arian yn ôl ar gyfer ei wasanaeth cerddoriaeth.

[3] **www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf**

# 3. Model cenedlaethol

**13.** Roedd adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru ar wasanaethau cerddoriaeth yn argymell y dylai awdurdodau weithio ar draws ffiniau i greu canolfannau gwasanaethau cerddoriaeth. Nid oedd yn pennu un model ar gyfer cyflawni hyn, ond cyfeiriodd at drefniadau consortia, gweithio mewn hybiau yn ogystal â modelau cyflawni megis ymddiriedolaethau elusennol neu sefydliadau hyd braich.

**14.** Argymhellodd adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen hefyd y dylai awdurdodau lleol gydweithio ag ysgolion a chyrff llywodraethu er mwyn mabwysiadu'r model o gylch gorchwyl a amlinellir yn yr adroddiad. Dywed yr adroddiad cynnydd y bu nifer o heriau, yn gysylltiedig â chyllid.

**15.** Mewn tystiolaeth lafar, clywodd y Pwyllgor:

- "Roedd y problemau sy'n ymwneud â gwasanaethau cerddoriaeth yn gysylltiedig â chyllid, nid strwythurau;
- Nid oes un model cyflwyno sy'n addas i bob sefyllfa;
- Nid yw'n gweithio i orfodi dull wedi'i ganoli o'r brig i lawr, ac awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth."

**16.** Mae adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth: blwyddyn yn ddiweddarach yn nodi bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Addysg Cerdd Awdurdodau Cymru, ac mae wedi cytuno y dylid parhau â'r model presennol o wasanaethau cerddoriaeth a reolir gan awdurdodau lleol. Dywed:

> "Mae'r model hwn yn sicrhau darpariaeth decach ar gyfer pob plentyn ym mhob awdurdod lleol, a hynny ar draws ystod o ddisgyblaethau lleisiol ac offerynnol, ynghyd â llwybr ar gyfer datblygu sgiliau."[4]

**17.** Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn well lle mae awdurdodau lleol yn rhydd i lunio modelau darparu gwasanaeth sy'n gallu ymateb i alw ar lefel leol, ond bydd awdurdodau lleol yn parhau i archwilio cytundebau cyd-ddatblygu a chydweithredu lle y bo'n briodol.

---

[4] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s62794/Papur%202%20Adroddiad%20cynnydd%20gan%20Lywodraeth%20Cymru.pdf

**18.** Mae nifer o dystion wedi awgrymu efallai nad gadael i bob awdurdod lleol benderfynu yw'r peth mwyaf priodol i'w wneud ac y gallai gweithio rhanbarthol, yn debyg i'r consortia addysg rhanbarthol cyfredol, fod yn fodel gwell. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor y Celfyddydau:

> "Where a regional approach to service delivery exists it would appear that access is more equitable in terms of what is available. However, though cost may still be prohibitive and the suggestion of a consortium based approach might be a way forward."[5]

**19.** Awgrymodd Karl Napieralla, Cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen, fod y consortia addysg rhanbarthol wedi gosod cynsail ar gyfer Llywodraeth Cymru. Fel arall, awgrymodd fod Cymru yn ddigon bach i ystyried model cenedlaethol, mewn modd tebyg i'r ensembles cenedlaethol. Dywedodd:

> "If local authorities can't cut the mustard then I think you've got to grasp hold of it centrally."[6]

**20.** Clywodd y Pwyllgor fod rhai awdurdodau eisoes yn cydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos, ond nad yw'n golygu cydweithio ehangach ar draws pob awdurdod lleol. Clywodd y Pwyllgor hefyd y gallai fod anawsterau wrth weithio gydag awdurdodau lleol eraill o ganlyniad i'r lefelau cyllido gwahanol rhwng awdurdodau a gwahaniaethau yn amodau a thelerau'r staff.

**21.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "...generally, the imposition of a top-down centralised approach doesn't necessarily work in these situations. Whatever the solution is, I think it needs to be sensitive to the local circumstances and, you know, the existing arrangements, the historical legacy, if you like, and the funding circumstances as well, because all of those things will vary across Wales."[7]

**22.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ar sawl achlysur na fyddai'n gorfodi strwythurau ar wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol. Dywedodd:

> "As for how individual local authorities wish to constitute or organise themselves, that really is a matter for them, and I wouldn't want to be in a position to dictate to them. I note that there are challenges in

[5] http://abms/cy/documents/s65408/Ymatebion%20ir%20Ymgynghoriad.pdf
[6] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s59052/26%20January%202017.pdf
[7] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s59812/15%20February%202017.pdf

> being able to move to different models, whether those be financial challenges or, actually, a political will to move to a different model, which has been alluded to by other witnesses that you have heard from."[8]

**23.** Pan ofynnwyd iddi ynglŷn â sicrhau cyfle cyfartal, aeth ymlaen i ailadrodd nad mater i Lywodraeth Cymru oedd rhoi cyfarwyddyd o'r canol ond ei bod yn cwrdd â Chadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn fuan ac y byddai'n cadw mewn cof unrhyw gyngor a gaiff ganddo.[9]

## Ein barn ni

Rydym yn sympathetig i'r egwyddor o sybsidiaredd ond, o ran gwasanaethau cerddoriaeth, mae ei diffygion yn amlwg. Er bod yr Adroddiad Cynnydd ar argymhellion grŵp gorchwyl a gorffen y gwasanaethau cerddoriaeth yn nodi bod y model presennol o ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth yn sicrhau bod cydraddoldeb darpariaeth ar gyfer pob plentyn gyda phob awdurdod lleol, yn ymarferol mae llawer o awdurdodau lleol yn pasio'r costau o ddarpariaeth gwasanaeth cerddoriaeth i rieni. Felly, mae mynediad at y gwasanaethau hyn yn ymwneud fwy â'r gallu i dalu ac nid oes cydraddoldeb o ran mynediad ar gyfer disgyblion y mae eu teuluoedd yn methu â fforddio cost yr hyfforddiant.

Mae'r materion ariannu yn amlwg yn bryder pwysig yn amrywioldeb presennol y mynediad a'r ddarpariaeth rhwng awdurdodau lleol. Oni bai yr eir i'r afael â chyllid, mae'r amrywioldeb hwn yn debygol o barhau. Fodd bynnag, mae manteision cydweithio yn cael eu cydnabod yn eang ac rydym yn credu y byddai manteision clir i system sy'n galluogi defnyddio adnoddau ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng presennol yn effeithiol, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol hyd braich, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru o bosibl. Credwn mai corff cenedlaethol yw'r ffordd orau o sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn cael y cyfle cyfartal y maent yn ei haeddu.

Yn amlwg, ni allai hyn ddigwydd dros nos; byddai corff sydd eisoes yn bodoli hyd yn oed angen amser i sefydlu ei rôl newydd o fewn y sector. Fodd bynnag, dros amser, nid oes rheswm pam na ddylai corff cenedlaethol megis

[8] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf
[9] Ibid

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru gymryd yr awenau a chynnal gwasanaethau cerddoriaeth.

Yn ymarferol, gallai dull canolog o ran darpariaeth helpu i ddatrys nifer o'r problemau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Byddai'n rhoi un pwynt canolog i leoli cronfa ddata genedlaethol, ynghyd â chaniatáu i'r sefydliad newydd gadw golwg ar gynrychiolaeth ar draws y gymdeithas er mwyn cynyddu cynrychiolaeth y rheini heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd. Byddai darpariaeth ganolog hefyd yn fwy ffafriol i sicrhau darpariaeth gyfartal o ran datblygiad proffesiynol parhaus o fewn y sector, ac mae'n bosibl y byddai'n rhoi'r sicrwydd cyllid y mae ei ddirfawr angen ar y sector.

At hynny, byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros wasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol yn mynd law yn llaw â system byramid Llywodraeth Cymru, gyda chorff canolog yn nodi talentau lleol a'r corff hwnnw'n gwbl ymwybodol o'r camau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn datblygu'r disgybl yn effeithiol i fyny'r pyramid.

Yn ogystal, mewn llythyr at y Pwyllgor, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn gymwys i wneud cais am arian o'r Gronfa Gwaddol ar gyfer Cerddoriaeth gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ei weithgareddau. O'r herwydd, byddai'n bosibl i Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (neu gorff cyfatebol sydd â'r statws priodol) wneud cais am gyllid i wella'r ddarpariaeth a gynigir yn lleol, er enghraifft. Gallai hyn roi i wasanaethau cerddoriaeth Cymru ffynhonnell ychwanegol, sylweddol ar gyfer cyllid sydd ei angen yn fawr. Gallai'r dull hwn hefyd helpu i sefydlu cyflog a thelerau safonol i aelodau staff, a gâi oll eu cyflogi gan yr un corff, a byddai o gymorth wrth fynd i'r afael â materion o ran gwersi preifat - lle nad yw disgyblion sy'n cael gwersi preifat yn defnyddio system cerddorfeydd y gwasanaeth cerddoriaeth.

Er mai'r sefydliad ei hun fyddai'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau cerddoriaeth, gallai patrwm darpariaeth rhanbarthol roi'r strwythur sydd ei angen i reoli gwasanaethau cerddoriaeth yn effeithiol.

Mater i Lywodraeth Cymru ei bennu yw sut y câi'r sefydliad ei ariannu. Fodd bynnag, er ein bod yn deall bod y cyllid ar gyfer cynnal gwasanaeth cerddoriaeth heb ei neilltuo ar hyn o bryd, man cychwyn amlwg fyddai ailddyrannu arian ar lefel addas gan awdurdodau lleol i'r corff canolog/cenedlaethol. Mewn unrhyw achos, dylai'r corff cenedlaethol gael ei ariannu'n ddigonol ac yn gynaliadwy er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad parhaus ledled Cymru.

Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn pennu sut y gallai corff cenedlaethol weithio'n effeithiol â'r awdurdodau lleol hynny sydd eisoes wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau i fenter gydweithredol cerddoriaeth. Dylid ymgymryd â'r gwaith hwn ar frys.

Byddai argymhelliad 1, pe câi ei weithredu, yn cynrychioli newid nodedig mewn dull darparu gwasanaethau cerddoriaeth a byddai'n dechrau mynd i'r afael â nifer o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rydym yn deall y gallai newid strwythurol o'r fath gymryd amser. O ganlyniad, mae argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â dirywiad pellach gwasanaethau cerddoriaeth cyn i gorff cenedlaethol ddod yn weithredol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol hyd braich sydd â model a phatrwm penodol ar gyfer darpariaeth pob rhanbarth. Dylai'r corff cenedlaethol gael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru a dylid ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion a staff sy'n gweithio yn y sector addysg cerddoriaeth, ni waeth lle y maent na beth yw eu cefndir cymdeithasol, yn elwa ar gyfleoedd cyfartal. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y corff cyfrifol unrhyw arian ychwanegol sydd ei angen er mwyn cynnal cydraddoldeb mynediad ar lefel Cymru gyfan.

# 4. Y sefyllfa bresennol o ran gwasanaethau cerddoriaeth

## Amrywioldeb a'r angen am strategaeth

**24.** Mae'r Pwyllgor wedi clywed bod darpariaeth cerddoriaeth yn amrywio ledled Cymru, a bod y sefyllfa bresennol yn fregus ac yn dameidiog. Yn ei dystiolaeth, disgrifiodd Karl Napieralla bedwar math gwahanol o wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol:

- Y rhai nad ydynt yn dymuno hyrwyddo gwasanaethau cerddoriaeth;
- Y rhai sy'n darparu'r isafswm;
- Y rhai sy'n cydweithio ag eraill;
- Y rhai sy'n fwy entrepreneuraidd ac yn edrych ar fodelau darparu hyd braich.

**25.** Clywodd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn hefyd:

- Gall y defnydd a wneir o wasanaethau cerddoriaeth lleol ddibynnu ar agweddau a blaenoriaethau penaethiaid unigol a dylai rhywfaint o gyfarwyddyd gael ei roi i ysgolion.
- Gallai strategaeth genedlaethol gwmpasu pob maes dysgu cerddorol.
- Dylai strategaeth genedlaethol hefyd gynnwys cerddoriaeth boblogaidd.

**26.** Mae rhai tystion wedi awgrymu bod angen rhoi cyfeiriad strategol ar waith ar lefel genedlaethol. Awgrymodd Richard Hallam, Cadeirydd y Cyngor Addysg Cerddoriaeth, y dylai'r Llywodraeth fod yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad strategol hwnnw. Dywedodd Gareth Kirby, Cydgysylltydd y Gwasanaeth Cerddoriaeth, Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir Gaerfyrddin:

> "I think it needs to have a national framework that comes as a steer, whether it's done through consortia or whether it's done through local authority music services or trusts—however it's done. […] I think there needs to be a formalised strategy that we work to across all of Wales, otherwise we will still have this patchiness, where some authorities will

say, 'Okay, we'll just do the bare minimum then.' I think it needs that focus."[10]

**27.** Yn ôl adroddiad cynnydd y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth:

> "Wrth i'r gwaith ar yr argymhellion hyn [mewn perthynas â modelau darparu gwasanaeth a pholisïau codi ffioedd] fynd rhagddo, bydd CLlLC yn ystyried cael cymorth gan randdeiliaid o fewn ysgolion a Llywodraeth Cymru i lunio Cynllun Cerddoriaeth i Gymru er mwyn sicrhau bod y dull cydweithredol hwn yn cael ei gyflawni."[11]

**28.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "I am concerned that there is equity and excellence in our provision, and we will continue to work with the Chair of the task and finish group and local authorities, the Welsh Local Government Association, regional consortia, and, indeed, Estyn, to try and give us some assurance about equity and excellence."[12]

**29.** Aeth yn ei blaen i ddweud:

> "I will take into consideration any advice that this committee has on the relevance, the need for and the potential impact of a national strategy. Like you, I'm an enthusiast for this; I want to make it happen for children in Wales, and, as I said, I'm willing to listen to suggestions that the committee may have on next steps to drive the agenda forward."[13]

**30.** Credwn y byddai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yn gam cadarnhaol ac y dylai Llywodraeth Cymru gymryd arweiniad strategol. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar strategaeth gyda disgwyliadau a chyfleoedd i bob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig. Dylai gwmpasu cerddoriaeth sy'n digwydd y tu allan i'r cwricwlwm yn ogystal â'r hyn sydd wedi'i gynnwys ynddo. Dylai'r strategaeth fod â chyfeiriad clir ac amcanion a adolygir yn rheolaidd.

---

[10] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s58999/1%20February%202017.pdf

[11] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s62794/Papur%202%20Adroddiad%20cynnydd%20gan%20Lywodraeth%20Cymru.pdf

[12] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

[13] Ibid

**31.** Eglurodd Mark Wells o Wasanaeth Cerddoriaeth Rhondda Cynon Taf i'r Pwyllgor:

> "To work in partnership would have many positives – share expertise, more flexibility timetabling staff, ease of covering staff sickness, combining ensembles for new and existing opportunities etc. However – almost every music service has different pay and conditions for its staff. Asking tutors to do the same job when the person next to them is being paid on a different (higher) rate of pay could lead to resentment and poor levels of morale. Music Services also charge differently in each authority, the difference can be as much as £25 an hour. I think music services should be encouraged to work together but if the future is to 'combine' music services the terms and conditions of staff, charges to school etc. in those areas would need to be comparable or standardised."[14]

## Ein barn ni

Mae diffyg cysondeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol yn darparu cyfleoedd gwahanol iawn mewn perthynas â'r addysg cerddoriaeth sydd ar gael i ddisgyblion ysgol ac i'r rhai sy'n gweithio yn y sector addysg cerddoriaeth. Rydym yn croesawu nod Ysgrifennydd y Cabinet o ddarparu rhagoriaeth a thegwch yn y ddarpariaeth honno. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gymhellol, sef er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb, mae angen cyfeiriad strategol ar lefel genedlaethol. Nodwyd bod "Gwasanaethau cerddoriaeth: adroddiad blwyddyn yn ddiweddarach"[15] yn nodi y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried llunio Cynllun Cerddoriaeth Cymru. Credwn mai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r cyfeiriad strategol.

Credwn y byddai cysondeb o ran telerau ac amodau staff o gryn gymorth wrth alluogi dull cydweithredol o ran gwasanaethau cerddoriaeth, gan ganiatáu i awdurdodau lleol gydgysylltu darpariaeth, rhannu adnoddau a chyflenwi darpariaeth fwy teg. Gallai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol i safoni a gwella'r cyfleoedd addysg cerddoriaeth ar gyfer disgyblion a staff ledled Cymru. Yn

[14] http://abms/cy/documents/s65408/Ymatebion%20ir%20Ymgynghoriad.pdf

[15] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s62794/Papur%202%20Adroddiad%20cynnydd%20gan%20Lywodraeth%20Cymru.pdf

benodol, dylai'r Cynllun Gweithredu ddarparu cyfeiriad strategol er mwyn cael cysondeb ledled Cymru mewn perthynas â chyllid (gan gynnwys yr hyn sydd ar gael drwy gyfrwng y Grant Datblygu Disgyblion); cerddoriaeth yn y cwricwlwm; mynediad at addysg cerddoriaeth ar gyfer plant o ardaloedd difreintiedig; a thelerau ac amodau staff.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn galw am drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros wasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol - os derbynnir yr argymhelliad hwn, byddem yn disgwyl i'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth gael ei ddefnyddio i gyflwyno mesurau a thargedau perfformiad er mwyn sicrhau darpariaeth deg a rhagorol o addysg gerddoriaeth ledled Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gymryd perchnogaeth strategol o wasanaethau cerddoriaeth drwy ymgynghori â rhanddeiliaid (ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith) er mwyn paratoi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cerddoriaeth. Er mwyn parhau i fod yn addas i'r diben, dylai'r Cynllun Gweithredu gael ei adolygu'n rheolaidd a chyhoeddi adroddiad yn flynyddol.

## Gweithlu

**32.** Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth ynghylch pryderon sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Bod â digon o staff i ymgymryd â phrosesau sicrwydd ansawdd;
- Sicrhau bod athrawon yn cael eu monitro;
- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael; a
- Sicrhau bod yr agweddau gweithredol cywir y tu ôl i wasanaeth cerddoriaeth.

**33.** Awgrymodd Karl Napieralla fod anghysondebau, yn ogystal â sicrwydd ansawdd, nad ydynt yn cael sylw, er enghraifft amodau gwasanaeth ar gyfer staff a mynediad anghyflawn at wasanaethau cerddoriaeth. Roedd y problemau eraill yn cynnwys:

- Gwasanaethau cerddoriaeth yn colli staff o ansawdd oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid;

- Pobl yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wneud darpariaeth addysg cerddoriaeth yn gynaliadwy drwy gyflogi athrawon cerdd hunangyflogedig;
- Yr angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon hunangyflogedig;
- Gallai cerddor unigol neu gwmni masnachol beidio â chaniatáu mynediad at "byramid" yr ensembles;
- Lle mae unigolion preifat yn gweithio mewn ysgolion, cafwyd problemau'n ymwneud â chynlluniau gwaith a'r gwasanaeth datgelu a gwahardd;
- Nid oes sicrwydd bod darparwr preifat yno er lles gorau'r plant;
- Nid oes unrhyw gymhelliant i gwmni preifat fynd i ysgol fach neu lle na all rhieni fforddio talu am wersi.

**34.** Dywed adroddiad cynnydd y grŵp gorchwyl a gorffen:

> "Mae'r telerau ac amodau ar gyfer y staff a gyflogir gan Wasanaethau Cerddoriaeth yn parhau i fod yn hyblyg fel bod y gwasanaethau'n gallu ymateb i newidiadau yn y model cyflenwi ac i'r sefyllfa ariannol. Bydd CLlLC a CAGAC yn parhau i weithio gyda holl Wasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol i sicrhau bod y staff a gyflogir yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel a hyfforddiant hanfodol. Os yw staff yn hunangyflogedig, byddant yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i sicrhau bod cyfleoedd ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus."[16]

**35.** Awgrymodd y Grŵp Cynghori fod perygl i weithluoedd gwirfoddol gymryd lle gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio am dâl, fel ateb i faterion cyllido.

**36.** O safbwynt Datblygiad Proffesiynol Parhaus, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu gweithrediad cyfleoedd dysgu proffesiynol. Dywedodd y dylai'r Cynnig Dysgu Proffesiynol y mae'n bwriadu ei greu ar gyfer y gweithlu addysgu ymateb i holl anghenion athrawon unigol. Byddai gan athrawon hawl i fynnu eu bod yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol. Dywedodd:

16 www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s62794/Papur%202%20Adroddiad%20cynnydd%20gan%20Lywodraeth%20Cymru.pdf

> "…that expectation to comply with your professional standards, that you will participate in professional learning, is an important one, and we are developing our offer for teachers to be able to do that."[17]

## Ein barn ni

Rydym yn deall y ddadl y gall cael telerau ac amodau hyblyg ar gyfer y staff a gyflogir gan y gwasanaethau cerddoriaeth eu galluogi i ymateb i newidiadau mewn modelau darparu a sefyllfaoedd ariannol. Mae'r defnydd o staff hunangyflogedig yn un ffordd o gynyddu'r hyblygrwydd hwn yr ymddengys ei fod yn cynyddu oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllido gwasanaethau cerddoriaeth.

Fodd bynnag, mae risgiau i'r dull hwn, yn enwedig yr anhawster o sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei gynnal a bod staff hunangyflogedig yn cael yr un cyfleoedd datblygu proffesiynol â staff eraill. Mae pryder hefyd nad oes digon o adnoddau a strwythurau digonol ar waith i sicrhau bod gwersi'n cael eu monitro'n briodol.

Mater arall yw y gall tegwch y ddarpariaeth fod dan fygythiad yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny sy'n dibynnu'n helaeth, weithiau'n gyfan gwbl, ar staff hunangyflogedig gan y gallant fod yn amharod i wneud eu hunain ar gael i bob ysgol o fewn ardal awdurdod lleol. Credwn y byddai model cenedlaethol o ddarparu gwasanaeth, gan ganiatáu ar gyfer cydweithio a safoni ehangach, yn fwy addas i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Er na fydd tâl ac amodau athrawon yn cael eu datganoli tan yn ddiweddarach eleni, argymhellodd adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen fod awdurdodau lleol yn adolygu telerau ac amodau staff er mwyn sicrhau amodau cyflogaeth teg, cynaliadwy a thryloyw. Rydym yn cytuno â hyn ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n gyflym i annog awdurdodau lleol i adolygu telerau ac amodau staff y gwasanaeth cerddoriaeth i sicrhau eu bod mor gyson â phosibl ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn y tymor hwy, byddem yn disgwyl i'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, ar y cyd â throsglwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol, ddarparu cysondeb yn y maes hwn.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i adolygu telerau ac amodau staff y gwasanaeth cerddoriaeth i sicrhau eu bod mor gyson â phosibl fel mater o frys.

[17] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

## Dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth

**37.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y sefydliad dielw Menter Gydweithredol Cerddoriaeth Sir Ddinbych a sefydlwyd yn 2015 ar ôl i'r awdurdod lleol dynnu cyllid yn ôl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth. Dywedodd Heather Powell, y Rheolwr Gyfarwyddwr, fod y model cydweithredol (lle y mae'r athrawon yn hunangyflogedig a'r Cwmni Cydweithredol yn darparu gwasanaeth rheoli) yn llwyddo ar gyfer cerddoriaeth yn ei barn hi. Fodd bynnag, awgrymodd y byddai wedi croesawu cymorth ymarferol tra roedd yn sefydlu'r fenter gydweithredol.

**38.** Pan ofynnwyd a oedd unrhyw gefnogaeth y gallai Llywodraeth Cymru ei darparu i'r rhai sydd am sefydlu mentrau cydweithredol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n fodlon ystyried yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud, neu bwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth ymarferol.

**39.** Dywedodd y Grŵp Cynghori nad yw'r gweithlu'n cael ei wobrwyo'n ddigonol am ei gyfraniad. Mae'n well bod staff yn cael eu cyflogi fel bod ganddynt hawliau fel budd-dal salwch. Gyda mentrau cydweithredol, mae perygl y collir y gallu i fod yn strategol gan y gallai staff wrthod gweithio mewn rhai ysgolion neu deithio i leoliadau llai. Ni fyddai fawr ddim i'w hatal rhag trafod yn uniongyrchol ag ysgolion.

### Ein barn ni

Mae Menter Gydweithredol Cerddoriaeth Sir Ddinbych yn un enghraifft o ddewis amgen ymarferol i wasanaeth cerddoriaeth awdurdodau lleol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ei thystiolaeth, mae mentrau cydweithredol yn annhebygol o barhau i fod yn opsiwn ymarferol heb gyflwyno cronfa ganolog o gyllid yn yr hirdymor.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael i'r rheini sydd am sefydlu modelau amgen, dichonadwy ar gyfer darpariaeth, a dylid sicrhau bod unrhyw gefnogaeth o'r fath yn unol â safbwynt moesegol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thelerau ac amodau staff. Ni ddylai disgyblion sy'n cael gwersi preifat neu drwy fenter gydweithredol cerddoriaeth wynebu anfantais o ran eu datblygiad ar byramid addysg cerddoriaeth Llywodraeth Cymru. Felly, pan fo model amgen ar gyfer darpariaeth yn cael ei ystyried, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cysylltiadau clir â'r ensembles. Dylid cynnwys hyn yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, y gelwir amdano yn argymhelliad 2 yn yr adroddiad hwn, a dylai fod o fewn cylch gwaith Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

Yn ei thystiolaeth, roedd Menter Gydweithredol Cerddoriaeth Sir Ddinbych hefyd yn nodi nifer o ffyrdd ymarferol o helpu mentrau cydweithredol, gan gynnwys cymorth gyda swyddfeydd, costau cyfieithu, benthyca offerynnau'r cyngor a'r defnydd am ddim o adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor fel lleoliadau cyngerdd.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, yn amodol ar y pwyntiau uchod ynghylch datblygiad ar byramid addysg cerddoriaeth Llywodraeth Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod arian, cefnogaeth a chyngor digonol ar gyfer y rheini sydd am sefydlu modelau amgen, dichonadwy o ddarpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth, ar yr amod bod unrhyw fodel cefnogaeth yn cydymffurfio â safbwynt moesegol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thelerau ac amodau staff.

## Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol

**40.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu ar gyfer Cymru ym mis Mawrth 2015. Mae hyn yn berthnasol i'r holl gelfyddydau, nid i gerddoriaeth yn benodol.

**41.** Mae'r Cynllun yn nodi ystod o gamau i'w gweithredu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £10 miliwn dros 5 mlynedd i gyfateb i'r £10 miliwn o arian y loteri y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i ymrwymo. O fewn y Cynllun mae dwy ffrwd waith, y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi manylion am y pedwar Rhwydwaith Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg.

**42.** Pan holwyd Emma Coulthard, Pennaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth ar gyfer Caerdydd a'r Fro, am y rhwydweithiau rhanbarthol ar gyfer y celfyddydau ac addysg, dywedodd na fu unrhyw ymgysylltiad rhwng y Partneriaethau Rhanbarthol a'r gwasanaethau cerddoriaeth. Dywedodd Karl Napieralla, er bod y cynllun wedi bod yn eithaf llwyddiannus na chafodd unrhyw effaith ar wasanaethau cerddoriaeth:

> "There was a false impression from the educational community, particularly amongst my colleague directors at the time, that some of that money could be utilised to, if you like, save music services. But it became clear from the outset that that was for the arts and creative learning plan. Meritorious as it is, I can see why it hasn't had any great effect on music services. Although there are aspects of that that would

encourage children and young people, particularly those perhaps in more deprived areas, to actually experience music through performance and through experiencing performances, it has no—as colleagues were saying—bearing on music services at all."[18]

**43.** Nododd Karl Napieralla hefyd y diffyg darpariaeth strategol:

> "[Schools have] really embraced the arts and creative learning plan. If we were to have been really strategic before that plan was introduced, or even thought about, then the whole business of a music plan for Wales should have been part of that."[19]

**44.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei thystiolaeth lafar:

> "One of the things we haven't talked about to date is the joint work between Welsh Government and the Arts Council of Wales, which is a £20 million programme delivered between 2015 and 2020 to enhance the opportunities not just to see music as a standalone—and art as a standalone—subject but actually incorporate that into learning approaches right the way across the curriculum. I think that's an important aspect of how we're supporting these endeavours in schools, also."[20]

## Ein barn ni

Mewn perthynas â chyllid, ymddengys nad yw'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol, rhaglen gwerth £20 miliwn, wedi cael unrhyw effaith ar wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol. Credwn fod gwasanaethau cerddoriaeth yn rhan annatod o'r dysgu creadigol sydd ar gael i ddisgyblion ledled Cymru ac felly, dylent fod yn ganolog i'r ddarpariaeth o addysg cerddoriaeth sydd ar gael drwy'r Cynllun Gweithrdu ar gyfer Dysgu Creadigol. Felly, dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gall y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol, a'r cyllid cysylltiedig, gefnogi'r gwasanaethau hynny'n well ac ystyried y potensial i wasanaethau cerddoriaeth gefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol er mwyn annog ysgolion i ddefnyddio arbenigedd gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru.

[18] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s59052/26%20January%202017.pdf
[19] Ibid
[20] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

## Gweithio gydag eraill

**45.** Rhoddodd yr Elusen Aloud dystiolaeth i'r Pwyllgor am ei gwaith gyda bechgyn yng Nghymru a sut y mae ei dull yn wahanol i wasanaethau cerddoriaeth mwy traddodiadol. Nid ydynt yn clyweld aelodau posibl ac nid ydynt yn codi tâl am aelodaeth, ac maent yn mynd ati i geisio annog y rhai nad oes ganddynt y profiad mwyaf yn yr ysgol. Maent yn darparu cyfleoedd i fechgyn ymarfer mewn clybiau rygbi yn hytrach nag mewn lleoliadau addysgol ac yn defnyddio terminoleg chwaraeon fel "capten tîm" yn hytrach nag arweinydd. Dywedodd Mr Rhys-Evans:

> "I'm not saying that we're better, but I do think the fact that we are removed from the education system is a positive for some of our boys, and, actually, it's a positive for some of our parents, who might not have had a good experience in school and might have a very negative view of education. [...] Also, we don't have to only work with practitioners who are trained teachers. So, I think we can have a broad base of people we work with."[21]

**46.** Er bod yr elusen yn gwbl ar wahân i wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol, mynegodd awydd i weithio gyda sector y wladwriaeth.

**47.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, amlinellodd Dr Owain Arwel Hughes y ffyrdd y mae'n gobeithio cefnogi addysg cerddoriaeth drwy recordio CDs ar gyfer ysgolion i'w helpu i gefnogi hyfforddiant offerynnol. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "I'd be delighted, actually, to be involved. If I can help in any way— I'll tell you as a committee: I'll help you in any way if you want to move this forward, or, any ideas you've got or initiatives, I'd be delighted to help."[22]

### Ein barn ni

Roedd y gwaith a wneir gan yr Elusen Aloud a'r cynnig o gefnogaeth gan Dr Owain Arwel Hughes wedi creu argraff ar y Pwyllgor. Clywodd y Pwyllgor hefyd am barodrwydd artistiaid fel Amy Wadge i gefnogi dysgu cerddoriaeth yng Nghymru. Gallai creu Dosbarthiadau Meistr, er enghraifft, fod yn fecanwaith lle gallai pobl o'r fath gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol.

[21] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s61193/16%20March%202017.pdf
[22] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s58435/12%20January%202017.pdf

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yn:

- Ceisio nodi a defnyddio pawb o fewn y byd cerddoriaeth sy’n gallu ac yn barod i gefnogi dysgu cerddoriaeth i bobl ifanc; a
- Sefydlu a gweithredu cyfres o ddosbarthiadau meistr er mwyn tynnu ar brofiad ac ewyllys da arbenigwyr yn y sector cerddoriaeth.



# 5. Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen

**48.** Yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Ddatganiad Cabinet ac adroddiad ar argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen, gwasanaethau cerddoriaeth - adroddiad blwyddyn yn ddiweddarach (6 Ebrill 2017).

**49.** Mewn tystiolaeth, clywodd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Ychydig sydd wedi newid ers cyhoeddi adroddiad cyntaf y grŵp gorchwyl a gorffen;
- Mae angen y capasiti a'r ymrwymiad i'w gyflawni;
- Roedd sefyllfa gwasanaethau cerddoriaeth wedi dirywio ers cyhoeddi'r adroddiad;
- Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i fynd i'r afael â'r argymhellion a gwneud cynnydd mewn ffordd gymesur o ystyried capasiti'r Gymdeithas;
- Mae gan bron bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad ryw fath o oblygiadau o ran adnoddau.

**50.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Emma Coulthard, Pennaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, fod "dim byd" wedi newid ers cyhoeddi adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen. Aeth yn ei blaen i ddweud:

> "The task and finish report was excellent, but in order to deliver it, we need the capacity and the commitment to do that, and the things are not in place for us to be able to deliver that to the level that is required."[23]

**51.** Soniodd Aled Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot, am y diffyg cynnydd a wnaed tuag at weithredu argymhellion yr adroddiad i'r pwysau ar y gyllideb a'r ffaith bod gwasanaethau cerddoriaeth yn anstatudol. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

[23] **http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s59052/26%20January%202017.pdf**

> "…when we are facing these pressures, we will always look at trying to prioritise. We will prioritise, for instance, the statutory services, because that was what we expected to do, and those services that are subject to external inspection or regulatory inspection. Currently, music services are not and that may be something that we need to look at."[24]

**52.** Mewn tystiolaeth lafar, disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y gwaith yr oedd wedi ymgymryd ag ef i gefnogi'r broses o roi argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ar waith, yn enwedig drwy ddarparu cyllid i brynu offerynnau cerdd ar yr amod y gweithredir ar yr argymhelliad sy'n ymwneud â chronfa ddata o offerynnau cerdd. Tynnodd sylw hefyd at yr argymhellion eraill yr oedd wedi bwrw ymlaen â hwy, gan gynnwys sefydlu'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, ac amnest offerynnau. Dywedodd:

> "I hope, over the first 12 months that I have been in office, we've been able to add some new momentum to the work of the task and finish group by making progress on the recommendations of that report."[25]

**53.** Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

> "I think it's important to be clear that the majority of the recommendations made in the task and finish report were for local authorities to take forward themselves. My job is to ensure that Welsh Government takes forward the ones that we have some auspice and some impact upon."[26]

**54.** Gallai sefydlu grŵp parhaol i gynghori Llywodraeth Cymru a hyrwyddo addysg cerddoriaeth gynaliadwy fod yn fuddiol. Dylai ei aelodau gynnwys:

- Y rhai sy'n cynrychioli cerddoriaeth y tu mewn a'r tu allan i'r strwythur addysg ffurfiol;
- Pobl berthnasol a gweithgar yn y sector cerddoriaeth glasurol yng Nghymru, heb fod yn gyfyngedig i'r lefel amatur/gwirfoddol gan fod effaith addysg cerddoriaeth ar y lefel broffesiynol yn arwyddocaol; ac
- Arbenigwyr mewn mathau eraill o gerddoriaeth, gan gynnwys roc a phop, a'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig.

---

[24] **http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s59812/15%20February%202017.pdf**
[25] **www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf**
[26] Ibid

## Ein barn ni

Ers cyhoeddi adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae'r gwaith o weithredu'r argymhellion wedi bod yn annigonol ar sawl lefel. Ymddengys fod y gwaith o weithredu'r argymhellion hynny a oedd yn gyfrifoldeb yr awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â hwy wedi bod yn gwbl ddibynnol ar y flaenoriaeth a roddwyd ar wasanaethau cerddoriaeth gan bob awdurdod unigol. Mae'r pwysau ariannol a roddir ar awdurdodau lleol, ynghyd â natur anstatudol gwasanaethau cerddoriaeth, wedi golygu bod awdurdodau lleol mewn llawer o achosion wedi anwybyddu'r argymhellion.

Mae'n deg dweud, fel y clywsom gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fod y goblygiadau adnoddau o ran gweithredu'r argymhellion wedi golygu, gan nad oes unrhyw arian ychwanegol wedi'i wneud ar gael iddynt, nad ydynt wedi gallu gwneud digon o gynnydd.

Er ein bod yn derbyn bod arian yn broblem, rydym yn siomedig iawn ynghylch y diffyg cynnydd. Er ein bod yn cytuno bod gan awdurdodau lleol neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol dros nifer o'r argymhellion, credwn fod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyffredinol i oruchwylio eu gweithrediad. Nid yw argymhellion adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael blaenoriaeth ddigonol gan Lywodraeth Cymru. Er bod cyllid annigonol yn fater arwyddocaol yma, mae amharodrwydd Llywodraeth Cymru wedi cyfyngu ar y mater hwnnw i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r argymhellion a rhoi lefel o flaenoriaeth addas iddynt. Wedi dweud hynny, rydym yn deall nad yw'r cyfrifoldeb dros weithredu argymhellion yr adroddiad yn disgyn yn llwyr i Lywodraeth Cymru. Hoffem weld Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn chwarae rôl fwy rhagweithiol drwy weithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn adrodd ar weithredu'r argymhellion cysylltiedig, o leiaf bob blwyddyn.

Credwn y byddai sefydlu grŵp cynghori parhaol i gynghori, rhoi gwybodaeth a herio Llywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud ag addysg cerddoriaeth yn fuddiol. Byddai grŵp arbenigol o fewn y maes ehangach o gerddoriaeth, gan gynnwys nid yn unig y rhai sy'n gweithio o fewn y sector addysg, ond y rhai sydd wedi datblygu gyrfaoedd llwyddiannus yn y diwydiant cerddoriaeth, yn helpu Llywodraeth Cymru i barhau i fod yn ymwybodol o gyfleoedd ac arfer gorau o fewn y sector. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y Llywodraeth mewn sefyllfa dda i roi cyngor a chyfarwyddyd cadarn i'r cyrff perthnasol ledled Cymru i sicrhau bod disgyblion Cymru yn cael yr holl gyfleoedd y maent yn eu haeddu.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried ar y cyd fel mater o frys sut y gall gwaith awdurdodau lleol yng Nghymru o weithredu argymhellion adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen gael ei gyflymu, gyda'r bwriad o adrodd i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu ar gyfer Cerddoriaeth, yn sefydlu grŵp cynghori parhaol i gynghori a rhoi gwybodaeth iddi am faterion sy'n ymwneud ag addysg cerddoriaeth.

# 6. Ariannu a blaenoriaethu

**55.** Mewn tystiolaeth lafar, clywodd y Pwyllgor y canlynol:

- Bod heriau cyllido o ran gwasanaethau cerddoriaeth hyd yma wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd, ond mae gwasanaethau yn cyrraedd y pwynt lle y bydd yn rhaid codi ffioedd ar ddisgyblion neu lle y bydd yn rhaid cynyddu ffioedd.

- Nid oes sefyllfa gyfartal ledled Cymru. Mae gan rai awdurdodau lleol gyllid ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth, ond nid oes gan rai awdurdodau'r cyllid hwnnw.

- Mae'r costau i ysgolion wedi golygu, mewn rhai achosion, bod amser gwersi wedi cael eu cwtogi i ddeng munud.

- Bydd llywodraeth leol yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau statudol a rhai sy'n cael eu harolygu'n allanol.

- Mae angen buddsoddi cyllid yn ddoeth er mwyn sicrhau bod rhywbeth i'w drosglwyddo i'r dyfodol, a bod strategaeth hirdymor ar ei gyfer.

**56.** Yn ei thystiolaeth lafar, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod cyllid yn her i wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol.

> "It is challenging and, as you said, it is a mixed picture, and, because many counties have devolved funding down to schools, it's very difficult to be able to get a grasp on exactly all the funding that is available. What's important to me is to look at the evidence of impact of spend, because we spend a lot of time looking at inputs, but actually we need to look at the output of that spend and the activity that is going on. What's important to me is that music is a crucial part of all aspects of our current curriculum."[27]

## Cyllid wedi'i glustnodi

**57.** Clywodd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Nid oes polisi cyson o safbwynt ariannu gwasanaethau cerddoriaeth gan awdurdodau lleol.

[27] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

- Mater o ddewis i awdurdodau lleol yw ariannu gwasanaethau cerddoriaeth.
- Galwodd nifer o dystion am gyllid wedi'i glustnodi.
- Nid oedd cyllid blaenorol gan lywodraeth ganolog ar gyfer offerynnau cerdd yn cynnwys rhaglenni cynnal a chadw neu atgyweirio.

**58.** Yn y gorffennol mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid wedi'i glustnodi i gefnogi gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol. Cyflwynwyd y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth ym 1999 am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, ac roedd yr arian wedi'i glustnodi ym mhob un o'r blynyddoedd hynny. Pan gafodd y Gronfa ei hymestyn y tu hwnt i drydedd flwyddyn, cafodd y gofyniad o ran clustnodi ei ddileu. Cafodd cyllid ar gyfer y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw o 2005-06. Roedd cyfanswm o £17.7 miliwn ar gael dros chwe blynedd y cynllun.

**59.** Er bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi cyllid penodol yn ddiweddar ar gyfer prynu offerynnau (gweler isod), nid yw o blaid clustnodi cyllid, yn gyffredinol. Dywedodd:

> "… we try to avoid hypothecated funding in most cases, believing in the principle of subsidiarity and the principle that local government and locally elected politicians are best placed to make financial decisions about services in their area."[28]

## Ein barn ni

Pan gaiff costau hyfforddiant cerddoriaeth eu trosglwyddo i rieni, fel y deallwn sy'n gynyddol dod yn wir, nid yw mynediad at yr hyfforddiant hwnnw bellach yn deg ac ni fydd llawer o deuluoedd yn gallu ei fforddio. Mae angen mynd i'r afael yn ddigonol â'r mater hwn. Er y croesewir y cyhoeddiadau cyllido diweddar a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet, mae'r arian sydd ar gael i wasanaethau cerddoriaeth yn parhau i fod yn druenus o annigonol. Er enghraifft, dywedodd Menter Gydweithredol Cerddoriaeth Sir Ddinbych y byddai'r arian yn prynu un delyn a bod costau atgyweirio un mis yn £2,000.

Un thema gyson drwy'r dystiolaeth oedd pan fydd awdurdodau lleol yn wynebu toriadau i'w cyllid eu bod yn rhoi blaenoriaeth i ariannu gwasanaethau statudol a'r rhai a arolygir yn allanol. Mae'n deg dweud bod natur amrywiol gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru yn cael ei ddylanwadu i raddau

[28] Ibid

helaeth gan y ddau ffactor. Mae'r ffaith bod cyllid ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth heb ei glustnodi hefyd yn fater cyfrannol pwysig. Yn ein barn ni, mae'n amlwg bod y cyllid wedi bod yn annigonol, a heb adolygiad o'r dull presennol mae'r sefyllfa'n annhebygol o newid er gwell.

Fel y gwnaethom ei ddweud yn gynharach, fel Ysgrifennydd y Cabinet, rydym yn sympathetig i'r egwyddor o sybsidiaredd mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol a byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol gael eu cynnwys yn llawn fel rhanddeiliaid pwysig mewn unrhyw ddull newydd o gyflwyno gwasanaethau cerddoriaeth - yn benodol gan Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth a chorff cenedlaethol presennol neu newydd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth, fel yr argymhellir yn yr adroddiad hwn. Yn y tymor hwy, disgwyliwn i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i gyfeirio unrhyw gyllid newydd tuag at sefydlu corff cenedlaethol fel y sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth.

## Darparu offerynnau cerdd

**60.** Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen yn argymell fel a ganlyn:

- Y dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid gomisiynu cronfa ddata genedlaethol o offerynnau cerdd.
- Y dylai Cyngor y Celfyddydau ymchwilio i gynllun prynu offerynnau cerdd "Take it Away".
- Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i brynu offerynnau ar y cyd.
- Y dylai gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau rhannu/atgyweirio/cynnal a chadw ar y cyd.

**61.** Dywed yr adroddiad cynnydd:

- Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, yn bwriadu sefydlu dull o rannu offerynnau yn genedlaethol, gyda'r gwaith yn dechrau ym mlwyddyn ariannol 2017-18.
- Bydd prynu offerynnau cerdd yn cael ei ystyried fel rhan o'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth.

- Mae Cyngor y Celfyddydau yn dal i archwilio pa mor ymarferol fyddai cynllun "Take it Away" ac mae wedi cael trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch y posibilrwydd o ymchwilio i'r cynlluniau prynu offerynnau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru ac ystyried y ffordd orau o ategu'r hyn sydd eisoes ar gael.

- Nid oedd yn ymarferol sefydlu cynllun rhannu/atgyweirio/cynnal a chadw ar y cyd, ond dylid datblygu canolfan ailgylchu genedlaethol.

**62.** Yn ystod yr ymchwiliad, ar 24 Mawrth 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai pob cyngor yng Nghymru yn derbyn £10,000 yn ychwanegol i brynu offerynnau cerdd i ddisgyblion. Bydd y cyllid yn helpu gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol i brynu offerynnau y gellir eu rhannu ledled Cymru, a gellir targedu'r cyllid i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

**63.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am hyn gan un tyst, sef Heather Powell o Fenter Gydweithredol Cerddoriaeth Sir Ddinbych a ddywedodd nad yw'r arian hwn yn ddim o'i gymharu â'r hyn y mae arnynt ei angen mewn gwirionedd.[29] Clywodd y Pwyllgor hefyd gan Richard Hallam fod problemau wedi codi yn y gorffennol pan gafodd cyllid canolog ei ddarparu ar gyfer prynu offerynnau. Mae'r rhain yn cynnwys methiant i gael rhaglenni cynnal a chadw a rhaglenni adnewyddu.



[29] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s61981/5%20April%202017.pdf

**64.** Wrth siarad am y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth, grantiau penodol a wnaed gan Lywodraeth Cymru rhwng 1999 a 2006, dywedodd Gareth Kirby, Cydgysylltydd y Gwasanaeth Cerddoriaeth, Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir Gaerfyrddin:

> "Local authorities were given the funding to purchase instruments and to develop specific projects to go into schools, and I think an awful lot of that did happen at that time.[… ] So, we were giving out violins and it was fantastic. But, whatever we do decide to go for in the future, we need to look at legacy, because, at that time, all authorities across Wales bought lots of instruments, and it was fantastic—brilliant. Eighteen years on, now, the cost for me to repair those instruments and maintain those instruments is cost-prohibitive. I've got a lot of instruments that are sitting in our storerooms that we can't afford to repair, because we're channelling all the funds that we have to actually get staff out into schools."[30]

**65.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu mecanwaith ar gyfer rhannu offerynnau yn genedlaethol er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol wneud gwell defnydd o'u stoc bresennol o offerynnau a nodi bylchau, y gall y cyllid newydd hwn helpu i fynd i'r afael â hwy.

**66.** O safbwynt sefydlu cronfa ddata o offerynnau, clywodd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Byddai angen adnoddau sylweddol i greu a chynnal cronfa ddata.
- Nid yw'n glir a fyddai manteision cronfa ddata yn gwneud iawn am y goblygiadau o ran adnoddau.
- Dylai rhagor o waith gael ei wneud i ystyried y manteision a'u cymharu â'r gost, ar adeg pan mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar geisio cynnal eu gwasanaeth i ysgolion.
- Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio pecynnau cronfa ddata pwrpasol ar gyfer gwasanaeth cerddoriaeth y gellid eu datblygu ar gyfer Cymru gyfan. Er enghraifft, eglurodd Mark Wells o Wasanaeth Cerddoriaeth Rhondda Cynon Taf eu bod eisoes wedi gweithredu cronfa ddata fanwl (o offerynnau) fel rhan o system sirol o'r enw "Capita".

---

[30] **http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s58999/1%20February%202017.pdf**

**67.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y £10,000 ar gyfer pob awdurdod lleol wedi'i gyhoeddi mewn ymateb i'r awgrym yn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen bod angen offerynnau cerdd. Gwnaed y penderfyniad mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen. Mae'r cyllid yn amodol ar gymryd camau tuag at sefydlu cronfa ddata genedlaethol. Gyda'r cyllid sydd ar gael i'r Gwaddol Cenedlaethol ac ar gyfer yr Ensembles Cenedlaethol, eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu ysgogi £1.5 miliwn. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "The only strings attached, if you don't mind the pun, are that the local authorities and the Welsh Local Government Association make progress on the issue of the database, because what's also clear is that we don't want this money being spent on having musical instruments sitting in one local authority where there is not a demand for and not a use for, when, in the neighbouring authority, just maybe a couple of miles away, there is a young person who could benefit hugely from access to that instrument. So, as I said, the only condition is that the WLGA—and they've given us that commitment—will make progress on the issue of the database."[31]

**68.** Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru yn monitro gwariant ac yn cael trafodaethau monitro rheolaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**69.** Mewn ateb i gwestiwn ar p'un a oedd unrhyw asesiad wedi'i gynnal o'r galw am offerynnau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "I think there are real challenges in being able to anticipate demand, but what we do know is that the current funding regimes that we have probably will not be sufficient. So, if we rely on traditional methods to solve these problems, we're going to struggle, given the financial situation the Welsh Government finds itself in, and is likely to find itself in, going forward, which, for instance, is one of the reasons why we have invested in the endowment so that we look at new ways of being able to lever in financial resource into the system. Because if we continue to rely on old ways, we will fall short. So, the investment in the endowment, which is a medium to longer term plan to find resources to put into potentially purchasing instruments and supporting

[31] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

> individuals, is a part of the wider conversation and action that we're taking."[32]

**70.** Dywedodd hefyd y gallai fod modd defnyddio'r Gwaddol Cenedlaethol i brynu offerynnau, ond mai mater i'r Gwaddol benderfynu yn ei gylch fyddai hyn. Mater i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fyddai rhoi cyfarwyddyd i Gyngor y Celfyddydau ystyried hyn.

**71.** O ran y gronfa ddata, dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi derbyn yr amod a wnaed mewn cysylltiad â'r cyllid ac y byddai'n ystyried sut i sefydlu cronfa ddata ac yn cyflwyno'r cynigion i Lywodraeth Cymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "The challenge for the WLGA is to develop solutions. They can't just keep coming to the committee and wringing their hands and saying, 'It's all too difficult.' They've said that they have an issue with purchasing instruments. We've been able to find additional resources to help them to do that. They now need to develop a solution to the issue around the database, and that's my expectation of them. They're aware of that. They say that they will be able to do so."[33]

**72.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd:

- Wrth brynu offerynnau cerdd, rhoddir y pwyslais yn aml ar fodelau "clasurol", drutach. A roddwyd unrhyw ystyriaeth i sut i gefnogi teuluoedd disgyblion sy'n dymuno dysgu offerynnau roc a phop.
- Nid yw'r gronfa ddata yn ddefnyddiol iawn ar hyn o bryd. Mae nifer o offerynnau y mae angen eu hatgyweirio ac mae'n rhatach prynu rhai newydd, ond nid oes arian i gael rhagor o stoc.
- Nid oes llawer o ddiben casglu offerynnau pan nad oes arian i gefnogi gwersi.
- Dylai diben y Gwaddol Cenedlaethol fod yn eglur. Gan y bydd cyllid yn gyfyngedig yn y byrdymor, mae'n bwysig ei ddefnyddio i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau a pheidio â'i gyfyngu i brynu offerynnau. Byddai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn gobeithio defnyddio'r Gwaddol Cenedlaethol i gefnogi prosiectau sy'n cyrraedd

---

[32] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf
[33] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

pobl nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd mewn ensembles neu i ddarparu bwrsariaethau.

- Os na roddir cefnogaeth i ddechreuwyr, ni fydd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn gallu dod o hyd i ddisgyblion sy'n gymwys ar gyfer bwrsariaethau gan nad oes arian i gefnogi gwersi.

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y bydd pob cyngor yng Nghymru yn derbyn £10,000 yn ychwanegol i brynu offerynnau cerdd. Fodd bynnag, credwn fod hyn yn annigonol i effeithio ar unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth o addysg cerddoriaeth.

At hynny, mae anghenion pob awdurdod lleol ar gyfer offerynnau cerdd yn wahanol. Nid ydym yn argyhoeddedig mai trosglwyddo swm unffurf o £10,000 i bob awdurdod yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r anghenion gwahanol hyn. Er mwyn gwneud y gorau o effeithiolrwydd cyllid o'r fath credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddosbarthu'r cyllid ar sail angen, gan ystyried ffactorau megis y cyflenwad presennol, nifer y disgyblion, lefel yr amddifadedd a natur wledig awdurdodau lleol.

Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai cael ffordd o rannu offerynnau rhwng awdurdodau lleol yn fuddiol. Byddai system o'r fath, pe byddai'n cael ei gweithredu'n effeithiol, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar lefel y cyfleoedd a gynigir i ddisgyblion ac nid oes angen ei chyfyngu i Gymru, ond gallai o bosibl ymestyn i gynnwys awdurdodau lleol cyfagos ar draws y ffin yn Lloegr.

Byddai'n esgeulus ohonom i beidio ag amlygu'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â sefydlu a chynnal cronfa ddata genedlaethol ar gyfer offerynnau cerdd. Mae'n amlwg y bydd gosod y cyfrifoldeb o greu a chynnal cronfa ddata o'r fath, heb adnoddau ychwanegol, yn rhoi pwysau diangen ar gyrff sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd darparu gwasanaethau digonol o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'n sylweddol y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer prynu offerynnau cerdd ac yn eu dosbarthu ar sail angen. Dylid gwneud hyn fel mater o frys a dylid ei anelu at wella'r sefyllfa yn y byrdymor, i gwmpasu'r cyfnod cyn bod corff cenedlaethol yn gallu cymryd cyfrifoldeb llawn dros wasanaethau cerddoriaeth.

## Arolygu gwasanaethau

**73.** Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r Pwyllgor wedi clywed y bydd awdurdodau lleol, o safbwynt cyllid, yn rhoi blaenoriaeth i wasanaethau statudol neu'r rhai sy'n cael eu harolygu'n allanol. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Pwyllgor wedi clywed bod mwy na deng mlynedd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i Estyn baratoi adroddiad sylweddol ar addysg cerddoriaeth. Dywedodd Cymdeithas Gorfforedig y Cerddorion:

> "We hear frequent reports from music teachers [...] that inspections focus heavily on languages and maths, with little focus on music. This in turn leads to schools prioritising these subjects over others. We recommend that Estyn be required to comment on music education in all its inspections."[34]

**74.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod Estyn yn gorff annibynnol ac na ddylai ymyrryd yn yr hyn y mae Estyn yn edrych arno fesul ysgol unigol. Fodd bynnag, awgrymodd y gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol. Awgrymodd y gallai Estyn edrych ar yr amrywiaeth yn y ddarpariaeth mewn adroddiad o'r fath.

**75.** Mae achos dros y syniad y dylai Estyn gyflwyno adroddiadau ar ddysgu creadigol yn amgylchedd yr ysgol, fel rhan o'i fframwaith arolygu. Byddai hyn yn atgyfnerthu'r Cynllun Dysgu Creadigol ac yn profi dilysrwydd addysg yn y celfyddydau. Gallai Estyn holi pa gyfleoedd cerddorol y mae ysgolion yn eu cynnig i'w disgyblion, neu ba gyfleoedd a gynigir i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau drwy'r celfyddydau.

### Ein barn ni

Credwn fod angen brys am asesiad gwrthrychol o'r gwasanaethau cerddoriaeth sydd ar gael i ddisgyblion mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Rydym yn cytuno gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai adolygiad thematig o wasanaethau cerddoriaeth yn darparu'r asesiad gwrthrychol sydd ei angen i ddarparu sail ar gyfer barnu a yw gwasanaethau cerddoriaeth ac addysg cerddoriaeth awdurdodau lleol yn ddigon cyson ac o safon ddigon uchel ledled Cymru. Dylai adolygiad o'r fath ganolbwyntio ar gamau ymarferol i sicrhau darpariaeth gyson ac i ddod â safonau'r awdurdodau lleol gwannaf i fyny i rai'r cryfaf.

[34] http://abms/cy/documents/s65408/Ymatebion%20ir%20Ymgynghoriad.pdf

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol gan ganolbwyntio ar gamau ymarferol i sicrhau cysondeb o ran cyfle ledled Cymru.

## Cynhwysiant a'r Grant Datblygu Disgyblion

**76.** Yn ôl adroddiad blwyddyn yn ddiweddarach y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cael gwybod bod camau wedi'u cymryd i ymchwilio i'r modd y gall awdurdodau lleol ac ysgolion gydweithio i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o rôl cerddoriaeth yn cefnogi llesiant academaidd a llesiant yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys sut y gall ysgolion ddefnyddio eu cyllid a'u grantiau dirprwyedig fel y Grant Datblygu Disgyblion i ddatblygu cerddoriaeth, gan ganolbwyntio ar y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Mae cysondeb rhwng awdurdodau lleol, o ran ffioedd am hyfforddiant, eisoes wedi'i gyflawni.

**77.** Mewn tystiolaeth lafar, mae'r Pwyllgor wedi clywed y canlynol:

- Mae costau hyfforddiant cerddoriaeth yn cael effaith niweidiol ar blant o deuluoedd sydd prin yn llwyddo i ddal dau ben llinyn ynghyd. Ceir disgyblion nad ydynt yn ceisio manteisio ar wersi gan eu bod yn gwybod na fydd eu teulu yn gallu fforddio'r hyfforddiant.
- Mae'n destun pryder sylweddol a yw pobl ifanc ddawnus o gefndiroedd tlotach yn cael yr un cyfle i fanteisio ar wersi, ac a ydynt yn gallu fforddio'r gwersi hynny. Gall hyn gael effaith andwyol ar y niferoedd sy'n cymryd rhan yn yr ensembles cenedlaethol.
- Mae perygl y gallai hyn arwain at gymdeithas gerddorol elitaidd yng Nghymru.

**78.** Yn ei thystiolaeth lafar, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod heriau o ran sicrhau bod pob person ifanc, ni waeth beth yw ei gefndir a'i amgylchiadau personol, yn gallu elwa. Dywedodd hefyd:

> "I want to develop an education system based on the principles of equity and excellence. Therefore, I see my role and the role of the state as trying to mitigate, wherever possible, those disadvantages that some children, through no fault of their own, are suffering."[35]

[35] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

**79.** Aeth ymlaen i sôn sut y mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth cerddoriaeth. Dywedodd hefyd:

> "With regard to variation, again, these are conversations for us to have with regional consortia, with the Welsh Local Government Association, and, as I said, potentially there could be a role for Estyn in looking at a thematic review."[36]

**80.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau, ym mis Chwefror 2015, ar y defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. O ran y Grant Datblygu Disgyblion, mae'r Pwyllgor wedi clywed y canlynol:

- Roedd penaethiaid wedi defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i ariannu gwersi cerddoriaeth, ond mae bellach yn cael ei ddefnyddio i dalu cyflogau cynorthwywyr addysgu;
- Gall ysgolion flaenoriaethu meysydd eraill o'r cwricwlwm, megis mathemateg a Chymraeg neu Saesneg, yn hytrach na cherddoriaeth;
- Nid yw cyllidebau pob ysgol yn elwa ar ddyraniadau o'r Grant Datblygu Disgyblion;
- Ni fyddai defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion yn rhan sylweddol o ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cerddoriaeth.

**81.** Amlygodd yr adroddiad gorchwyl a gorffen fod y celfyddydau yn darparu profiadau a chyfleoedd cyfoethog ynddynt eu hunain, a hefyd am eu gwerth o ran datblygu sgiliau ehangach.

**82.** Roedd adroddiad yr Athro Graham Donaldson, "Dyfodol Llwyddiannus" yn nodi:

> "Wrth ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol, rhaid wrth ymroddiad, dyfalbarhad a gofal am fanylion, ac mae'r rhain yn alluoedd sy'n fanteisiol ar gyfer dysgu'n gyffredinol."[37]

**83.** Clywodd y Pwyllgor hefyd dystiolaeth rymus gan Tim Rhys-Evans yr Elusen Aloud ar effaith newid bywydau o ganu corawl ar y bechgyn yr oedd wedi gweithio gyda hwy. Dywedodd:

---

[36] Ibid

[37] **https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf**

> "I see on a daily basis young, often very vulnerable young people, lads with additional learning needs, children who are really struggling with their sense of identity, with their sense of poor mental health, which I think is horrific in young people, and yet I see the difference that being part of something does to them."[38]

**84.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn ystyried cerddoriaeth a gweithgareddau diwylliannol yn rhan bwysig o ddatblygiad unigolyn a bod Llywodraeth Cymru yn glir y byddai'n briodol defnyddio arian y Grant Datblygu Disgyblion i gynorthwyo disgyblion i ddysgu cerddoriaeth. Gall y cyllid ennyn diddordeb dysgwyr a allai o bosibl golli diddordeb mewn dysgu. Dywedodd:

> "It's a priority for me personally, as the Cabinet Secretary, and it is a priority for the Welsh Government as a whole. Increasing the pupil deprivation grant is part of the agreement that I had with the First Minister that brought me into Government in the first place. So, we're trying to give some certainty around that."[39]

**85.** Fodd bynnag, cawsom wybod, er ei fod yn aml yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwersi cerddoriaeth, yn aml defnyddir ef ar gyfer anghenion eraill ac mae'n ddibynnol ar flaenoriaethau pob lleoliad addysg.

## Ein barn ni

Rydym yn llawn gydnabod yr effaith gadarnhaol y mae addysgu cerddoriaeth yn ei chael ar ddatblygiad plentyn a chyrhaeddiad addysgol ehangach. Mae'r sgiliau sydd eu hangen i feistroli offerynnau cerdd, sgiliau bywyd ehangach o ran dyfalbarhad a disgyblaeth, ynghyd â natur foddhaus y cyflawniad, yn arf dysgu pwerus a phwysig i bobl ifanc, a all fod yn amhrisiadwy i'w datblygiad. Credwn y dylai pob plentyn yng Nghymru gael mynediad at addysg cerddoriaeth a'r manteision ehangach a ddaw yn ei sgil. Credwn hefyd nad yw'r manteision ehangach hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n gyffredinol gan rieni, disgyblion neu rai athrawon gymaint ag y gallent fod. Gallai rhywfaint o waith pellach, sy'n edrych ar fanteision ehangach addysg gerddoriaeth, helpu i roi gwell dealltwriaeth o'r manteision hyn.

Er bod cysondeb o ran codi tâl am wersi cerddoriaeth ar draws awdurdodau lleol wedi cael ei gyflawni a'i groesawu, mae mynediad anghyfartal at y gwasanaethau o hyd. Nid yw'n dderbyniol bod rhai teuluoedd yn gallu fforddio

[38] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s61193/16%20March%202017.pdf
[39] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

hyfforddiant tra bod eraill yn methu; mae angen gwneud mwy i sicrhau bod yr holl bobl ifanc sydd â dawn ac awydd i ddysgu yn gallu cael gafael ar wasanaethau cerddoriaeth yn deg ledled Cymru.

Rydym wedi sôn o'r blaen bod addysg a gwasanaethau cerddoriaeth yn debygol o ddioddef oherwydd bod pwysau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau statudol a meysydd addysg sy'n destun arolygiad gan Estyn. Nid yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn eithriad i hyn. Rydym yn deall y gall ysgolion ddefnyddio arian y Grant Datblygu Eiddo i gefnogi addysgu cerddoriaeth, a bod nifer o ysgolion yn ei ddefnyddio at y diben hwn. Felly, er bod unrhyw gynnydd yn y Grant, fel yr awgrymwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, yn cael ei groesawu, mae mater o hyd fod y rhan fwyaf o unrhyw gyllid ychwanegol yn debygol o gael ei flaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau eraill; mae'r defnydd o'r cyllid yn dibynnu ar agweddau arweinwyr ysgolion. Felly, nid yw cynnydd yn y Grant ar ei ben ei hun yn debygol o ddarparu ateb digonol i'r mater o gydraddoldeb mynediad at addysg cerddoriaeth. Am y rheswm hwn, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall hyrwyddo ac annog y defnydd o gyllid y Grant Datblygu Disgyblion i'w ddefnyddio ar gyfer addysg cerddoriaeth.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o gyllid Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer addysg cerddoriaeth.

## Statws o fewn y cwricwlwm

**86.** Er mai diben yr ymchwiliad oedd ystyried cerddoriaeth allgyrsiol yn benodol, mae nifer o dystion wedi gwneud sylwadau ynglŷn â darpariaeth y cwricwlwm. Clywodd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r syniad o ddysgwyr creadigol a rhoi statws eglur a phenodol i gerddoriaeth fel disgyblaeth academaidd o fewn y cwricwlwm yn un cadarnhaol iawn;
- Ni ellir torri'r cyswllt rhwng cerddoriaeth yn y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol;
- Gwelwyd llai o ddisgyblion yn sefyll TGAU mewn cerddoriaeth dros y degawd diwethaf ac mae hyn wedi cael effaith ganlyniadol ar ddysgwyr ac ar set sgiliau'r gweithlu;
- Nid yw cerddoriaeth yn cael lle amlwg ym mesurau perfformiad Llywodraeth Cymru.

**87.** Mae adroddiad cynnydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, geisio sefydlu strwythurau sy'n cefnogi mwy o ddeialog rhwng ysgolion a gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru, gan eu helpu i weithio mewn partneriaeth a dwyn y naill a'r llall i gyfrif.

**88.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod y cwricwlwm newydd yn rhoi cyfle i ddathlu gweithgarwch creadigol o bob math ac i'w integreiddio'n well yn y cwricwlwm oherwydd y bydd yn gyfartal i'r holl feysydd dysgu a phrofiad eraill. Eglurodd fod Ysgolion Arloesol yn cydweithio o ysgol i ysgol a hefyd yn cymryd cyngor gan sefydliadau allanol. Dywedodd:

> "In terms of local authority music services, they will have an opportunity to feed into that process, but in the end, the delivery of the new curriculum post 2020 or 2021 will, again, be a matter for individual schools as to how they best see delivering the AoLE within their own individual institution."[40]

**89.** Dywedodd hefyd nad oedd ganddi unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio cerddoriaeth TGAU yn deillio o newidiadau i wasanaethau cerddoriaeth, ond y gallai mesurau perfformiad Llywodraeth Cymru fod wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol i TGAU cerddoriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried newid y mesurau atebolrwydd presennol mewn modd radical.

**90.** Gallai Llywodraeth Cymru fod o gymorth gwirioneddol o ran cydnabod cyfraniad gwasanaethau cerddoriaeth i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Awgrymwyd fod gostyngiad wedi bod yn nifer y disgyblion dan anfantais sy'n perfformio ar gyfer TGAU cerddoriaeth gan fod angen gwersi offerynnol neu leisiol ychwanegol, sy'n dibynnu ar gymorth ariannol gan y rhieni. Mae llawer o ysgolion mewn ardaloedd llai cefnog yn newid i ddarparu BTEC mewn Celfyddydau Perfformio, gan nad oes angen gwersi ychwanegol ar ei gyfer, ond gall amddifadu disgyblion o'r cyfle i chwarae cerddoriaeth ar lefel uchel.

## Ein barn ni

O ystyried manteision ehangach cerddoriaeth i ddysgu disgyblion, mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi gweithgarwch creadigol ar sail gyfartal â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

---

[40] www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf

## Cerddoriaeth boblogaidd

**91.** Er bod fframwaith wedi'i hen sefydlu o hyfforddiant mewn cerddoriaeth glasurol, nid yw'r maes hwn wedi'i ddatblygu cystal ar gyfer y sector roc a phop. Gallai datblygu ensembles roc a phop ar gyfer Cymru gyfan (y gellid eu hychwanegu i'r cynnig presennol gan Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru) a sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol sy'n annog roc a phop fod yn fuddiol yn hyn o beth. Gellid sefydlu Academi Roc a Phop ar gyfer disgyblion 11+ lle mae'r hyfforddiant a gynigir yn cyfateb i'r hyn a gynigir gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar gyfer cerddoriaeth glasurol. O ystyried y nifer uchel o gyrsiau roc a phop a gynigir ganddi, Prifysgol De Cymru fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwasanaeth hwn.



**92.** Cafodd yr ystyriaeth o addysg cerddoriaeth boblogaidd ei groesawu gan Grŵp Cynghori'r Pwyllgor a'r gobaith oedd y byddai'r Pwyllgor yn parhau hyn fel llinell ymholi ar wahân. Roedd y sylwadau yn y Grŵp yn cynnwys:

- Mae angen i bobl ifanc, rhieni a gofalwyr fod yn ymwybodol bod hwn yn opsiwn ymarferol ar gyfer cyflogaeth (tynnodd un aelod o'r grŵp sylw at gyfleuster a ddarperir gan Creative Scotland sy'n caniatáu ar gyfer olrhain gyrfaoedd a swyddi o fewn y sector).

- Mae diffyg seilwaith amlwg ar gyfer cerddoriaeth roc a phop, gwerin a cherddoriaeth anghenion addysgol arbennig o fewn gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol.
- Mae cerddoriaeth boblogaidd yn gofyn am ddull gwahanol i gerddoriaeth glasurol, gyda rhagor o ddysgu annibynnol a hyfforddi yn hytrach nag addysgu ffurfiol.

## Ein barn ni

Yn hanesyddol, mae addysg cerddoriaeth yng Nghymru wedi canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol a thraddodiadol ac addysgu disgyblaethau sydd wedi'u sefydlu o fewn y maes. Er y gellir ystyried addysgu disgyblaethau damcaniaethol ac ymarferol mor draddodiadol i fod yn sylfaen addysg cerddoriaeth, nid yw llwyddiant eu defnydd bellach yn gyfyngedig i faes cerddoriaeth glasurol.

Mae'r sector roc a phop yn darparu ystod o gyfleoedd i'r disgyblion hynny nad ydynt yn unig wedi ennill y sgiliau a'r wybodaeth draddodiadol sy'n gysylltiedig ag addysg cerddoriaeth, ond hefyd am eu defnyddio'n greadigol mewn perthynas â mathau eraill o gerddoriaeth. Yn ogystal â'r sgiliau traddodiadol hyn, credwn y byddai disgyblion yn elwa'n fawr o ddysgu ystod ehangach o sgiliau, y tu allan i gerddoriaeth glasurol, oherwydd ei fod yn cyfoethogi'n greadigol ac oherwydd y gall eu helpu i ddod o hyd i gyflogaeth a chyfleoedd yn y diwydiant cerddoriaeth ehangach.

Credwn y byddai datblygu ensembles roc a phop ar gyfer Cymru gyfan a darparu cyfleoedd i'r disgyblion gystadlu mewn cystadlaethau roc a phop cenedlaethol yn annog disgyblion i ddysgu mathau o gerddoriaeth o'r fath.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yn:

- darparu cyfeiriad strategol i awdurdodau lleol ac ysgolion ar ffyrdd o integreiddio a hybu'r gwaith o addysgu ffurfiau llai traddodiadol o gerddoriaeth; ac
- annog sefydlu ensembles roc a phop, a chystadlaethau cenedlaethol sy'n seiliedig ar roc a phop.

# 7. Ensembles

## Mynediad at yr Ensembles Cenedlaethol

**93.** Mae addysg cerddoriaeth yng Nghymru yn cael ei hystyried fel "pyramid", sy'n rhoi llwybr dilyniant clir i ddysgwyr. Yr hyfforddiant offerynnol a lleisiol a ddarperir gan wasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion yw haen gyntaf y strwythur pyramid. Yna gall dysgwyr symud i fyny i ensembles lleol a/neu ranbarthol ac yn y pen draw i'r ensembles cenedlaethol, sy'n cynrychioli brig y pyramid.

**94.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan CBAC fod llai o geisiadau'n dod i law i ymuno â'r ensembles cenedlaethol. Roedd yn priodoli hyn i oedi oherwydd newidiadau sefydliadol a chostau – er nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth gadarn bod hyn yn wir.

**95.** Awgrymodd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth y byddai'r problemau sy'n ymwneud â gwasanaethau cerddoriaeth yn cael effaith niweidiol ar yr ensembles cenedlaethol, ac y byddai llai o gerddoriaeth ar lefel llawr gwlad yn digwydd mewn ysgolion.

**96.** Dywedodd Matthew Jones o CBAC:

> "… I think the greatest risk to access to the top level of the pyramid, but also music education in Wales in general, is the risk to the music services. I think they create the bedrock of this pyramid."[41]

**97.** Yn yr un modd, dywedodd Richard Hallam o'r Cyngor Addysg Cerddoriaeth:

> "… because of the lead time in learning an instrument from beginning through to excellence. […] if we're beginning to see some problems, they might be the result of the last three, four, five years. And, so, urgent action, I think, is needed."[42]

**98.** Mynegwyd y farn hon hefyd gan Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a ddywedodd:

> "…a greater risk, if anything, is the fact that music services are being fragmented across the country anyway. So, if you don't have the right

---

[41] **http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s59052/26%20January%202017.pdf**

[42] **http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s58999/1%20February%202017.pdf**

> structures in place for these people to feed into what NYAW is able to offer, then that poses a massive problem."[43]

## Ariannu'r ensembles

**99.** Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd CBAC mai cyllid yw un o'r peryglon mwyaf i ddyfodol ensembles. Mae bwlch mawr rhwng lefel y cyllid a arferai fod ar gael drwy Gyngor y Celfyddydau ac awdurdodau lleol (£800,000) a'r lefel bresennol, sef £350,000. Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yw'r sefydliad newydd sy'n gyfrifol am reoli'r Ensembles Cenedlaethol. Caiff ei ariannu drwy grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'i weithredoedd codi arian ei hun. Mae'r Ensembles Cenedlaethol wedi'u rheoli ar y cyd gan CBAC a Tŷ Cerdd o dan y brand ymbarél Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Rheolodd CBAC y rhaglenni Dawns, Cerddorfa a Theatr; rheolodd Tŷ Cerdd, sy'n Sefydliad Corfforedig Elusennol, y Band Pres, Corau, Jazz a'r Gerddorfa Chwyth.

**100.** Dywedodd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru wrth y Pwyllgor fod y sefydliad newydd wedi'i sefydlu i fod yn gynaliadwy ac yn annibynnol. Byddai hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau cenedlaethol eraill. Byddai CBAC a Tŷ Cerdd yn darparu rhaglen yn 2017, ond ar ôl hynny y bwriad yw y byddai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn dechrau o'r newydd. Ni fyddai CBAC a Tŷ Cerdd o reidrwydd yn rhan o gyflwyno darpariaeth yr ensembles cenedlaethol yn y dyfodol. Ni fyddai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn diystyru'r cyfleoedd i gydweithio â CBAC a Tŷ Cerdd os oes ganddynt gyfraniad i'w wneud, ond byddai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn dymuno ystyried partneriaethau ehangach. Clywodd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn hefyd:

- O 2018 ymlaen, byddai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn cyflwyno'r rhaglen yn unol â'r partneriaethau y maent yn eu datblygu.
- Dywedodd Peter Bellingham, Cyfarwyddwr Pontio Ymgynghorol, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, wrth y Pwyllgor ei fod o'r farn y byddai angen i'r sefydliad weithio'n agosach gyda darparwyr gwasanaethau cerddoriaeth ac eraill i gael rhaglen ddatblygu gryfach ar y cam nesaf i lawr o'r Ensembles Cenedlaethol.
- Dywedodd aelod o'r Panel Cynghori fod cyllid cyhoeddus ar gyfer yr ensembles yn hanfodol i sicrhau bod y gost o gymryd rhan mor fach ag y bo modd ac i allu ysgogi cyllid elusennol a nawdd.

---

[43] **http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s59812/15%20February%202017.pdf**

- Roedd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru wedi penodi codwr arian ymgynghorol a oedd yn canolbwyntio ar geisio grantiau gan gyrff sy'n darparu cyllid i gefnogi sefydliadau sy'n mynd drwy gyfnod o drawsnewid. Bydd hyn yn newid yn ddiweddarach yn y flwyddyn i gyllid ar sail rhaglenni.

**101.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru fylchau ariannu tybiedig o £82,500 ar gyfer 2017-18 a £115,000 ar gyfer 2018-19, y byddai angen eu llenwi drwy godi arian. Dylai fod modd targedu £300,000 fel targed codi arian blynyddol realistig, ond byddai'n cymryd tair i bedair blynedd i gyrraedd y swm hwn.

**102.** Dywedodd y sefydliad nad oedd y targed o £82,500 ar gyfer eleni yn arbennig o uchelgeisiol a'i bod yn dybiaeth resymol y gallai godi £115,000 yn 2018-19. Byddai'n monitro incwm a gwariant yn ofalus. Roedd yn cytuno y gallai codi arian fod yn her ond roedd yn teimlo bod Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn barod i ymateb i'r heriau. Roedd yn cydnabod y gall y gwaith codi arian corfforaethol fod yn gyfyngedig, o ystyried nad yw hon ond yn rhan fach iawn o'r sector codi arian, yn enwedig yng Nghymru.

**103.** Byddai'r sefydliad yn un diwastraff, a dylai'r costau gorbenion fod yn is na'r £70,000 a amcangyfrifir ar hyn o bryd gan CBAC.

**104.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod wedi darparu £280,000 i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ad-dalu awdurdodau lleol am eu cyfraniad i'r Ensembles Cenedlaethol yn 2016/17 ar yr amod y byddai'n gwneud cyfraniad ariannol i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar gyfer darpariaeth ensembles yn 2017/18.

**105.** Holwyd Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â'r potensial o greu dryswch pe byddai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a'r Gwaddol Cenedlaethol yn chwilio am arian mewn lleoedd tebyg. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ddau sefydliad weithio ar y cyd er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath. Eglurodd swyddogion Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r ensembles yn gallu cael arian o'r Gwaddol Cenedlaethol yn y tymor hwy.

> "I think that's the difference, really. It's in the short term they [NYAW] need to get their funding in place, whereas the endowment—what we're looking at—is more longer term."[44]

---

[44] **www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s63311/18%20May%202017.pdf**

**106.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai wrthi'n cael ei gynllunio y mae'r Gwaddol Cenedlaethol ar hyn o bryd. Pan ofynnwyd iddi a ddylai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a'r Gwaddol gyd-fynd â'i gilydd o'r camau cynnar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n trafod hyn gyda Chyngor y Celfyddydau.

**107.** Roedd sylwadau gan y Grŵp Cynghori yn cynnwys:

- Nid ydym yn gwybod pa ddifrod sydd eisoes wedi cael ei achosi yn sgil darnio a lleihau gwasanaethau cerddoriaeth. O ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i unigolion gyrraedd y safonau angenrheidiol i gael lle mewn ensemble, erbyn inni sylweddoli, bydd yn rhy hwyr i weithredu.
- Dylai unrhyw safbwynt a fynegir gan y Pwyllgor gael ei ategu gan fesurau i atal neu wrthdroi unrhyw effaith negyddol.
- Ensembles y gwasanaeth cerddoriaeth yw asgwrn cefn yr Ensembles Cenedlaethol, a dyna lle yr hyfforddir ar eu cyfer.
- Mae llai o ddisgyblion o gefndiroedd amrywiol yn manteisio ar wersi offerynnol sy'n golygu y bydd yr Ensembles Cenedlaethol yn cael eu cyfyngu i'r rhai sydd wedi gallu ariannu gwersi.
- Ni fydd unrhyw ysgoloriaethau neu fwrsariaethau sydd gan yr Ensembles Cenedlaethol yn mynd i'r afael â phroblem cynhwysiant gan na fydd y disgyblion hynny wedi gallu cyrraedd lefel mynediad oherwydd y diffyg cefnogaeth.
- Mae'n anochel y bydd rhywfaint o orgyffwrdd yn y ffynonellau cyllid y bydd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a'r Gwaddol Cenedlaethol yn gwneud cais iddynt, gan fod nifer gyfyngedig o gyllidwyr posibl. Y peth pwysig fydd diffinio diben y cyllid ar gyfer Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac ar gyfer y Gwaddol Cenedlaethol, a gwahaniaethu rhyngddynt.
- Gellid osgoi dryswch o ran ffynonellau cyllid drwy sicrhau bod y Gwasanaethau Cerddoriaeth a Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn gweithio mewn partneriaeth.
- Mae gan Gyngor y Celfyddydau gytundeb ariannu gyda Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru sy'n cynnwys sawl targed ac amcan y mae'n rhaid i'r sefydliad eu bodloni er mwyn sbarduno taliadau.

## Ein barn ni

O'r dystiolaeth a ddaeth i law, mae'n amlwg bod gwasanaethau cerddoriaeth yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddisgybl fod yn gymwys am le ar ensemble cenedlaethol. Mae'r Pwyllgor wedi clywed bod dirywiad mewn darpariaeth gwasanaeth cerddoriaeth yn anochel wedi cael effaith negyddol ar nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ofynnol o ragoriaeth. Fel "haen gyntaf" neu "Sylfaen" strwythur pyramid Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cerddoriaeth, ni ellir pwysleisio eu pwysigrwydd ddigon - ensembles gwasanaeth cerddoriaeth yw asgwrn cefn y maes hyfforddi ar gyfer Ensembles Cenedlaethol.

Pan fydd disgyblion o ardaloedd mwy difreintiedig yn methu â fforddio cost yr hyfforddiant ychwanegol angenrheidiol mae perygl y bydd yr ensembles cenedlaethol yn cael eu dominyddu gan ddisgyblion o gefndiroedd mwy cefnog. Er y croesewir argaeledd posibl ysgoloriaethau a bwrsariaethau a ddelir gan Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, ni fydd yn mynd i'r afael â'r mater o gynnwys yn ddigonol gan na fydd cymaint o ddisgyblion wedi cael mynediad at y cymorth lefel mynediad angenrheidiol. Fodd bynnag, os yw Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn gallu cynnig cyllid cyson a digonol i'r rheini sydd ei angen, bydd yn mynd rhyw ffordd i fynd i'r afael â'r mater.

Yn ein barn ni, mae'n gwbl annerbyniol i'r Ensembles Cenedlaethol ddod yn gilfachau o fraint, sy'n gwahardd disgyblion tlotach. Dylai mynediad at hyfforddiant a llwybrau dilyniant disgyblion fod yn seiliedig ar botensial, nid taliad. O ystyried y gostyngiad yn nifer y ceisiadau i'r ensembles a'r amser sy'n angenrheidiol i ddisgybl gyrraedd y lefel ofynnol o ragoriaeth (hyd at bum mlynedd) credwn fod angen mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys. Er mwyn ehangu'r ensembles cenedlaethol fel eu bod yn hollol gynhwysol o ddisgyblion o bob cefndir cymdeithasol, mae angen gwybodaeth well at ddibenion monitro am eu cyfansoddiad. Yna dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hon i fynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd ac annog mwy o gynhwysedd.

Er ein bod yn gefnogol o ymdrechion codi arian Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a'r Gronfa Waddol, credwn fod angen mwy o eglurder o ran dibenion gwahanol y mae'r ddau sefydliad yn ceisio eu cefnogi a'u hariannu. Mae'r eglurder hwn yn hanfodol yng Nghymru, lle mae cyfleoedd codi arian posibl ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth yn gyfyngedig. Mae rhai cwmnïau sydd wedi'u lleoli yma sydd yn draddodiadol yn ariannu'r celfyddydau. Gyda mwy o eglurder o ddiben gellir trefnu'r cyfleoedd ariannu a geisir gan bob

sefydliad yn effeithiol, gan gyfyngu ar y potensial ar gyfer gorgyffwrdd lle mae pob un yn chwilio am roddion elusennol o'r un ffynonellau.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn rhoi mecanweithiau a chyllid digonol ar waith er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl, sy'n dymuno symud ymlaen at ragoriaeth, yr adnoddau i wneud hynny.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ffyrdd o fonitro cyfansoddiad yr ensembles cenedlaethol i sicrhau eu bod mor gynhwysol o'r holl grwpiau cymdeithasol â phosibl. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd yn eu cyfansoddiad fel mater o frys. Dylid adolygu'r data yn rheolaidd a chymryd y camau priodol.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cymryd camau i sicrhau bod mwy o eglurder o ddiben rhwng y Gronfa Waddol a Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn y cyllid elusennol y maent yn ei geisio er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ac i annog cydweithio rhyngddynt.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r cyllid sydd ar gael i'r Gwaddol Cenedlaethol ac yn ystyried cyfraniadau cyfalaf ychwanegol os bydd angen.

# AtodiadA – Tystion a Thystiolaeth Ysgrifenedig

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar I'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma: **www.senedd.cynulliad.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=16620**

Mae gwe-ddarllediadau ar gael yn: **www.senedd.tv**

| **Dyddiad** | **Enw a Sefydliad** |
|---|---|
| 12 Ionawr 2017 | Dr Owain Arwel Hughes CBE |
| 26 Ionawr 2017 | Karl Napieralla OBE, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen blaenorol Llywodraeth Cymru ar Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru<br>Emma Coulthard, Pennaeth y Gwasanaeth Cerddoriaeth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.<br>Wayne Pedrick, Rheolwr, Cerdd NPT Music<br>Gareth Pierce, Prif Weithredwr, CBAC<br>Matthew Jones, Rheolwr CCIC (Cerddoriaeth Ieuenctid), Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru |
| 1 Chwefror 2017 | Richard Hallam, Cadeirydd y Cyngor Addysg Gerddoriaeth; Cadeirydd y Cyngor Cyswllt Cenedlaethol / Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, Y Gymdeithas Ryngwladol Addysg Gerddoriaeth<br>Elinor Bennett, Is-Gadeirydd y Bwrdd y Cyfarwyddwyr, Gwasanaeth Ysgolion William Mathias<br>Ann Pritchard Jones, Rheolwr Gwasanaeth Ysgolion William Mathias<br>Gareth Kirby, Cydgysylltydd y Gwasanaeth Cerdd, Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin |
| 9 Chwefror 2017 | Deborah Keyser, Cyfarwyddwr, Tŷ Cerdd |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 15 Chwefror 2017 | Peter Bellingham, Cyfarwyddwr Pontio Ymgynghorol, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (CCIC)<br>Anwen Fflur Jones, Cyd-gadeirydd, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru<br>Emma Archer, Cadeirydd Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru (CAGAC)<br>Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Aled Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| 16 Mawrth 2017 | David Barnard, Swyddog Addysg, Undeb y Cerddorion<br>Tim Rhys-Evans MBE, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Artistig, Elusen Aloud |
| 5 Ebrill 2017 | Heather Powell, Rheolwr Gyfarwyddwr, Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych<br>Fflur Wyn Roberts, Rheolwr Swyddfa, Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych |
| 18 Ebrill 2017 | Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg<br>John Pugsley, Pennaeth Y Gangen Cefnogi’r Cwricwlwm<br>Steven Price, Swyddog Cefnogi’r Cwricwlwm |

# Atodiad B – Tystiolaeth ysgrifenedig

Daeth tystiolaeth i'r Pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad. Er mwyn gweld y cyflwyniadau i'r ymgynhoriad:

**www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s65408/Ymatebion%20ir%20Ymgynghoriad.pdf**

| Cyfeirnod | Enw / Sefydliad |
|---|---|
| FAME01 | Mat Davies (Saesneg yn unig) |
| FAME02 | Jo Taylor (Saesneg yn unig) |
| FAME03 | Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig) |
| FAME04 | Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro (Saesneg yn unig) |
| FAME05 | Ysgol Gerdd Caerdydd (Saesneg yn unig) |
| FAME06 | Youth Cymru (Saesneg yn unig) |
| FAME07 | Undeb y Cerddorion (MU) (Saesneg yn unig) |
| FAME08 | Julie Meehan (Saesneg yn unig) |
| FAME09 | Janet Lougee (Saesneg yn unig) |
| FAME10 | Ben Rackham (Saesneg yn unig) |
| FAME11 | Ensemble Cymru (Saesneg yn unig) |
| FAME12 | Elusen Aloud (Saesneg yn unig) |
| FAME13 | Cymdeithas Gorawl Ynys Môn a Cherddoriaeth Eglwys y Santes Fair yr Wyddgrug (Saesneg yn unig) |
| FAME14 | Canolfan Gerdd William Mathias |
| FAME15 | Incorporated Society of Musicians (ISM) (Saesneg yn unig) |
| FAME16 | Arholiadau Cerddoriaeth Coleg y Drindod, Llundain (Saesneg yn unig) |